Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig
Rheoliad 01: 2024 Fersiwn 1
Daw i rym: 1 Awst 2024

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 4 Gorffennaf 2024 | 2023 Fersiwn 1.1 | Adolygiad cyfnodol cynhwysfawr, gan gynnwys newidiadau i gyfnodau amser ar gyfer rhaglenni ôl-radd hyfforddedig, dileu cymwysterau HNC a HND, cyfeiriad at lefel sylfaen a chynnwys cyfeiriad at ofynion rhaglenni a reoleiddir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. |
| 1 Mehefin 2023 | 2023 Fersiwn 1 | Diweddariad i'r canllawiau ynghylch gwirio marciau |
| 9 Chwefror 2023 | 2022 Fersiwn 1 | Ymgorffori gradd meddygaeth newydd a modiwlau Cofrestriad Proffesiynol yn Adran 10 |
| 30 Medi 2022 | 2021 Fersiwn 1.1 | Newidiwyd adran 1.2 i ganiatáu ar gyfer amgylchiadau eithriadol. |
| 1 Awst 2021 | 2020 Fersiwn 1.2 | Atodiad 1 addasiad i adlewyrchu prosesau'r Llyfrgell. |

| **Perchennog y Ddogfen** | **Cymeradwywyd gan** | **Dyddiad Cymeradwyo** | **Amlder Adolygu** |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr . | Y Senedd. | 28 Mehefin 2024. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall y cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Penaethiaid Coleg, Swyddogion Coleg neu Bwyllgorau Coleg yn y drefn honno, fel bo'n briodol.

# Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig

Rheoliadau Dyfarnu ac Asesu
Graddau, Diplomâu a Thystysgrifau Hyfforddedig

**Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i bob myfyriwr ar raglenni hyfforddedig.**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

---

**Gwybodaeth i Fyfyrwyr**

| | **Ewch i** → |
|---|---|
| Rydych yn ymrestru ar **raglen** (cwrs) | **Adran 1.1** |
| Mae gan raglenni **deitlau**, e.e. Hanes<br>Mae rhaglenni'n arwain at **gymhwyster**, e.e. Baglor yn y Celfyddydau (BA) | **Adran 1.1** |
| Rhoddir **dosbarth** i gymwysterau fel rheol, e.e. Ail Ddosbarth, Dosbarth Cyntaf, Teilyngdod, Rhagoriaeth<br>Caiff cymwysterau eu dosbarthu gan ddefnyddio'r marc cyfartalog cyffredinol a meini prawf eraill. | **Adran 4** |
| Blociau adeiladu yw **modiwlau** sy'n eich galluogi i ennill credydau. Rhaid i chi ennill y nifer briodol o gredydau i ennill y cymhwyster, e.e. 360 credyd ar gyfer BA | **Adran 1.3** |
| **Asesir** modiwlau trwy waith cwrs ac arholiadau. | **Adran 6** |
| Rhaid i chi **lwyddo** ym mhob rhan/blwyddyn o'r rhaglen | **Adran 3** |
| Gallwch **ailsefyll** arholiadau ac ailgyflwyno gwaith cwrs os byddwch yn<br>methu rhan o raglen | **Adran 5** |
| Dylech roi gwybod am **amgylchiadau arbennig** | **Adran 8** |
| Rhaid i chi gadw at reoliadau cyffredinol y Brifysgol | **Rheoliad 13** |
| Caiff myfyrwyr anabl eu hannog i ddatgan amhariad fel<br>y gellir ystyried ffyrdd o'u cefnogi | **Cod 11** |
| Rhoddir cefnogaeth i helpu gyda chyflogadwyedd a pharatoi<br>at y byd gwaith | **Cod 04** |
| Rhoddir cefnogaeth i ymdrin â phroblemau personol | **Cod 15** |
| Mae ffyrdd o gwyno ac apelio | **Gweithdrefn 01** |

**Mae'r ddogfen hon ar gyfer:**

**Rhaglenni Israddedig**

- Tystysgrifau Addysg Uwch
- Diplomâu Addysg Uwch
- Graddau Sylfaen
- Graddau Baglor (Cyffredin)
- Graddau Baglor (Meddygaeth)
- Graddau Baglor (Anrhydedd)
- Graddau Israddedig Estynedig
- Tystysgrifau i Raddedigion
- Diplomâu i Raddedigion

**Rhaglenni Ôl-radd Hyfforddedig**

- Tystysgrif Ôl-radd
- Diploma Ôl-radd
- Graddau Meistr yn cynnwys Meistr mewn Ymchwil (MRes)

**Mae adrannau 5-9 o'r ddogfen hon yn ymwneud hefyd â'r canlynol:**

- Tystysgrif Addysg i Raddedigion - Gweler hefyd Reoliadau'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)
- Doethuriaethau Proffesiynol - Gweler hefyd Reoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd

**Nid yw'r ddogfen hon ar gyfer:**

- Rhaglenni nad ydynt yn arwain at Gymhwyster Prifysgol - gweler y Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaeth Ddi-gymhwyster
- Gradd Meistr trwy Ymchwil - Gweler Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd
- MPhil a PhD - gweler Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd
- Uwch Ddoethuriaethau - Gweler Rheoliadau Uwch Ddoethuriaethau

Mae'r rheoliadau, y codau a'r dogfennau eraill i'w gweld yn:
https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy

**Cynnwys**


1. Cyfnodau Astudio, Terfynau Amser a Chredydau 5

1.1. Cyfnod Astudio a Therfynau Amser 5

2. Cyfrifoldebau 14

2.1. Cyfrifoldebau Ysgolion 14

2.2. Cyfrifoldebau Myfyrwyr 15

3. Lefelau Llwyddo 16

4. Cyfrifo a Dosbarthu Canlyniadau Terfynol 18

Cam A. Cyfrifo'r marc canrannol cyffredinol 18

Cam B. Talgrynnu'r Marc Canrannol Cyffredinol 19

Cam C. Pennu cymhwystra cyffredinol 20

Cam D. Pennu Dosbarth 22

Cam E. Adolygu Dosbarth Gradd Myfyrwyr Ffiniol 23

5. Gwneud yn Iawn am Fethiant 25

6. Asesu 28

6.1 Llwyth asesu 28

6.2 Trefnu Asesiadau 28

6.3 Cyflwyno Gwaith Cwrs a Phrojectau Ymchwil Graddau Meistr 28

Cadw Gwaith wedi ei Asesu 29

6.5 Cyflwyno Gwaith yn Gymraeg 29

6.6 Arholiadau Llafar (Viva Voce) 30

7. Marcio ac Adborth 32

7.2 Graddfeydd Marcio 32

7.2 Canllawiau Marcio Categorïaidd 33

7.3 Marcio Gwaith Cwrs sy’n mynd dros y Terfyn Geiriau 34

7.4 Gwirio Marciau 34

7.5 Adborth i Fyfyrwyr ar Waith Cwrs ac Arholiadau 37

8. Amgylchiadau Arbennig 39

8.1 Ceisiadau am Estyniadau a Sefyll Arholiadau fel pe bai am y Tro Cyntaf 39

8.2 Caniatáu Estyniadau a Sefyll Arholiadau fel pe bai am y tro Cyntaf: Rhesymau Derbyniol ac Annerbyniol 40

8.3 Adrodd am amgylchiadau arbennig 42

9. Byrddau Arholi 45

10. Rhestr Termau 48

Atodiad 1. Cyflwyno Project Ymchwil Gradd Meistr 52

Atodiad 2: Gweithdrefnau Cymeradwyo Cydnabod Dysgu Blaenorol 55

Atodiad 3: Meini Prawf Marcio 58

Atodiad 4: Meini Prawf Llwyddo mewn Modiwlau 65

Atodiad 5: Trosglwyddiadau Llawn Amser / Rhan Amser 67

Atodiad 6: Cyfrifiadau sy'n Cynnwys Marciau Categorïaidd 68

Atodiad 7: Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch 69

# 1. Cyfnodau Astudio, Terfynau Amser a Chredydau

## 1.1. Cyfnod Astudio a Therfynau Amser

Gellir cynnig rhaglenni i'w hastudio trwy sawl dull cyflwyno a gallant gynnwys dysgu o bell. Caiff dulliau cyflwyno rhaglen eu pennu pan ddilysir y rhaglen.

| Cymhwyster | Cyfnod Astudio*1 (blynyddoedd) | | Terfyn Amser*1 (blynyddoedd) | |
|---|---|---|---|---|
| | Llawn amser | Rhan amser | Llawn amser | Rhan amser |
| Tystysgrif Addysg Uwch | 1 | 2 | 3 | 6 |
| Diploma Addysg Uwch | 2 | 4 | 4 | 8 |
| Gradd Sylfaen | 2 | 4 | 4 | 8 |
| Gradd Baglor (Cyffredin) | 3 | 6 | 5 | 10 |
| Gradd Meddygaeth BMBS | 5 | Amh. | 7 | Amh. |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) | 3 | 6 | 5 | 10 |
| Graddau Israddedig Estynedig | 4 | 8 | 6 | 12 |
| Tystysgrif i Raddedigion | 6 mis | 1 | 2 | 3 |
| Diploma i Raddedigion | 12 mis | 2 | 24 mis | 5 |
| Tystysgrif Ôl-radd | 4 mis | 1 | 12 mis | 3 |
| Diploma Ôl-radd | 8 mis | 2 | 18 mis | 5 |
| Gradd Meistr | 1 | 2*2 | 3 | 5*2 |

*1 [1]Gweler Adran 10 am ddiffiniadau

*2 Gellir cwblhau Gradd Meistr hefyd dros gyfnod astudio o 3 blynedd a gyda chyfyngiad amser o 6 blynedd (gweler y Wybodaeth Ychwanegol).

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Cyfnodau astudio (Cofrestriad)

- Gellir ymestyn cyfnodau astudio a therfynau amser rhaglen pan gaiff ei dilysu, er enghraifft, er mwyn caniatáu lleoliadau dramor neu leoliad mewn diwydiant ac felly gall fod yn wahanol i'r hyn a nodir yn y Tabl uchod.
- Gellir cynnig rhaglen gyda chyfnod astudio byrrach na'r rhai a nodir yn y Tabl yn amodol ar gymeradwyaeth pan gaiff rhaglen ei dilysu.
- Gyda llwybrau 2 flynedd a 3 blynedd graddau Meistr rhan amser, rhaid i fyfyrwyr gyflwyno'r Project Ymchwil o fewn 4 blynedd i ddechrau'r rhaglen. Dylai myfyrwyr ystyried unrhyw oblygiadau ariannol, o ran cefnogaeth a chostau byw, cyn dewis astudio dros 2 flynedd neu 3 blynedd.
- Gellir astudio rhai rhaglenni'n llawn amser yn unig neu'n rhan amser yn unig.
- Ni chaniateir i fyfyrwyr barhau i astudio ar ôl terfynau amser y rhaglen.
- Os yw'r Ysgol a'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu enwebai) yn cytuno, gall

myfyrwyr unigol gofrestru am gyfnod hwy na chyfnod astudio'r rhaglen. Dim ond ar gyfer gweithgareddau paratoadol (nad oes rhaid dyfarnu credydau ar eu cyfer) y gellir ymestyn y cyfnod astudio. Er enghraifft, gallai myfyriwr gofrestru am gyfnod o 18 mis ar gyfer Diploma i Raddedigion (cyfnod cofrestru arferol - 12 mis), os ydyw’n treulio’r 6 mis ychwanegol yn dilyn hyfforddiant iaith, neu hyfforddiant pwnc-benodol.

- Gellir lleihau'r cyfnod astudio os bydd myfyriwr yn trosglwyddo credydau, neu os dyfernir credydau iddo/iddi, ar sail dysgu blaenorol.
- Os caiff y cyfnodau astudio eu hymestyn neu eu lleihau yna rhaid addasu'r terfyn amser yn yr un modd (h.y. os ychwanegir chwe mis at y cyfnod astudio yna rhaid cynyddu’r terfyn amser gan chwe mis).

Dyddiad dechrau

- Bydd rhaglenni llawn amser fel arfer yn dechrau naill ai ym mis Medi, mis Ionawr neu fis Mai. Gellir cytuno ar amseroedd dechrau eraill pan gaiff y rhaglen ei dilysu.
- Os yw rhaglenni'n dechrau ar adeg arall, rhaid i ddilyniant y modiwlau alluogi myfyrwyr i ennill sgiliau trosglwyddadwy a sgiliau pwnc-benodol a chyflawni unrhyw ragofynion ar gyfer modiwlau a gaiff eu hastudio'n ddiweddarach yn y rhaglen.

Estyniadau

- Gall y Bwrdd Arholi argymell ymestyn y terfyn amser os oes amgylchiadau arbennig. Rhaid anfon argymhellion i'r Adran Gweinyddu Myfyrwyr i'w cymeradwyo gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr).
- Gall ysgolion gymeradwyo estyniadau o hyd at 3 mis i fyfyrwyr Tystysgrif i Raddedigion, Diploma i Raddedigion, Tystysgrif Ôl-radd, Diploma Ôl-radd a Gradd Meistr.

Ffioedd

- Codir ffioedd dysgu a chostau eraill ar fyfyrwyr, megis ffioedd ymweliadau astudio a ffioedd labordy.
- Caiff y ffioedd eu haddasu os caiff cyfnod cofrestru myfyriwr ei ymestyn neu ei gwtogi.

**Newid y dull astudio**

Gall myfyrwyr newid dull astudio rhwng rhaglenni llawn amser a rhan amser. Fel arfer dim ond unwaith yn ystod eu cyfnod cofrestru y gall myfyrwyr newid eu dull astudio.

Cyfrifir cyfnodau astudio fel y dangosir isod. Rhaid addasu'r cyfrifiad os newidiwyd hyd y rhaglenni llawn amser a/neu ran amser pan ddilyswyd y rhaglenni (Gweler Atodiad 5).

**O Ran Amser i Lawn Amser**

Caiff y cyfnod astudio **a gwblhawyd eisoes** ei gyfrifo fel a ganlyn:

Yn achos pob rhaglen ac eithrio rhaglenni ôl-radd hyfforddedig

Cyfnod llawn amser cyfatebol (misoedd) = Astudiaethau rhan amser a

gwblhawyd (misoedd) /2 Yn achos rhaglenni ôl-radd hyfforddedig

Cyfnod llawn amser cyfatebol (misoedd) = Astudiaethau rhan amser a gwblhawyd

(misoedd) /3

**O Lawn Amser i Ran Amser**

Caiff y cyfnod astudio **a gwblhawyd eisoes** ei gyfrifo fel a ganlyn:

Yn achos pob rhaglen ac eithrio rhaglenni ôl-radd hyfforddedig

Cyfnod rhan amser cyfatebol (misoedd) = Astudiaethau llawn amser a gwblhawyd

(misoedd) * 2

Yn achos rhaglenni ôl-radd hyfforddedig

Cyfnod rhan-amser cyfatebol (misoedd) = Astudiaethau llawn amser a gwblhawyd (misoedd) * 3

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Ni chaniateir i fyfyrwyr sy'n astudio ar Fisa Astudio Myfyriwr astudio ar sail Rhan amser.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau'n defnyddio'r Ffurflen Newid Dull Astudio.
- Dim ond yn ystod rhan hyfforddedig y rhaglen y caiff myfyrwyr Graddau Meistr drosglwyddo fel arfer.
- Ni chaiff myfyrwyr israddedig drosglwyddo yn ystod tri mis olaf y cyfnod astudio.
- Gall myfyrwyr drosglwyddo o raglen lawn amser i raglen lawn amser mewn Ysgol a/neu faes pwnc gwahanol. Bydd y cyfnod astudio ar y rhaglen newydd yr un peth â'r cyfnod sy'n weddill o'r rhaglen wreiddiol.
- Gall myfyrwyr drosglwyddo o raglen ran amser i raglen ran amser mewn Ysgol a/neu faes pwnc gwahanol. Bydd y cyfnod astudio ar y rhaglen newydd yr un peth â'r cyfnod sy'n weddill o'r rhaglen wreiddiol.
- Gall yr Ysgol sy'n derbyn y myfyriwr bennu bod yn rhaid i fyfyriwr ddechrau rhaglen newydd o'r dechrau gyda chyfnod astudio a therfynau amser fel y diffinnir ar gyfer y rhaglen yn Adran 1.1. Er enghraifft, os yw'r myfyriwr yn trosglwyddo i faes pwnc gwahanol, ac nad yw wedi cwblhau modiwlau craidd neu orfodol y rhaglen newydd. Os oes raid i fyfyriwr ailddechrau'r rhaglen newydd o'r dechrau, gall yr Ysgol sy'n derbyn y myfyriwr ganiatáu i'r myfyriwr gario drosodd hyd at 20 credyd.
- Cyn gwneud cais i newid dull astudio, dylid cynghori myfyrwyr i gysylltu â'r Uned Cefnogaeth Ariannol i sicrhau na fydd unrhyw effaith ar eu cyllid.

**Credydau a Lefelau**

Mae pob rhaglen wedi ei chreu o fodiwlau. Rhaid i fodiwlau fod yn werth o leiaf 10 credyd a rhaid iddynt fod yn werth lluoswm o 10 neu 15 credyd. Mewn amgylchiadau eithriadol, megis rhaglen DPP neu ddysgu ar sail sgiliau, gellir rhoi caniatâd i addysgu ar lefel micro-gredydau (5 credyd neu fwy) os cymeradwywyd hynny pan ddilyswyd y rhaglen. Gall rhaglenni gynnwys modiwlau craidd, modiwlau gorfodol a modiwlau dewisol. Rhaid diffinio modiwlau craidd (gan gynnwys cofrestriad proffesiynol), modiwlau gorfodol a modiwlau dewisol ym Manyleb y Rhaglen. Bydd myfyrwyr yn dewis modiwlau dewisol o blith rhestr o fodiwlau ym Manyleb y Rhaglen. Rhaid i raglenni ôl-radd hyfforddedig gynnwys Project Ymchwil 60 credyd neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny fel y

cafodd ei gymeradwyo pan ddilyswyd y rhaglen, a rhaid i raglenni MRes gynnwys Project Ymchwil 120 credyd. Rhaid i'r Project Ymchwil mewn rhaglenni ôl-radd hyfforddedig fod yn fodiwl craidd.

Gall myfyrwyr hefyd gymryd modiwlau fel modiwlau detholiadol. Gellir cymryd modiwlau detholiadol naill ai er credyd neu er diddordeb, a chyfeirir at hynny fel 'dull archwilio' (gweler Adran 10 am ddiffiniadau). Yn y ddau achos, rhaid astudio modiwlau detholiadol yn ychwanegol at nifer y credydau a astudir i gael cymhwyster (gweler y wybodaeth ychwanegol). Ni fydd modiwlau detholiadol a astudir yn y naill ddull neu'r llall yn cyfrif tuag at ddosbarth y radd derfynol. Mae ysgolion yn cadw'r hawl i rwystro myfyrwyr rhag astudio modiwlau fel rhai detholiadol.

Dangosir y credydau a'r lefelau ar gyfer cymwysterau isod. Gall myfyrwyr rhan amser astudio hyd at 90 credyd mewn blwyddyn academaidd.

| Cymhwyster (Lefel) | Nifer y Credydau a Astudiwyd[1] (Isafswm credydau ar y lefel uchaf) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 6 | Lefel 7 |
| Tystysgrif Addysg Uwch (Lefel 4) | 120 | 120 (90) | | | |
| Diploma Addysg Uwch (Lefel 5) | 240 | 120 | 120 (90) | | |
| Gradd Sylfaen (Lefel 5) | 240 | 120 | 120 (90) | | |
| Gradd Baglor (Cyffredin) (Lefel 6)[2] | 360 | 120 | 120 | 120 (60) | |
| Gradd Meddygaeth BMBS (Lefel 6) | 600 | 120 | 120 | 240 | 120 (120)[3] |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) (Lefel 6)[2] | 360 | 120 | 120 | 120 (90) | |
| Graddau Israddedig Estynedig (Lefel 7)[2] | 480 | 120 | 120 | 120 | 120 (120) |
| Tystysgrif i Raddedigion (Lefel 6) | 60 | | | 60 (40) | |
| Diploma i Raddedigion (Lefel 6) | 120 | | | 120 (90) | |
| Tystysgrif Ôl-radd | 60 | | | | 60 (50) |
| Diploma Ôl-radd | 120 | | | | 120 (100) |
| Gradd Meistr | 180 | | | | 180 (150[4]) |

[1]Ar bob lefel, rhaid i fyfyriwr astudio nifer y credydau a ddangosir, a dangosir lleiafswm y credydau ar y lefel uwch mewn cromfachau.
[2]Gall y rhaglen fod ar gael gyda Blwyddyn Sylfaen, Blwyddyn Profiad Rhyngwladol,

Blwyddyn ar Leoliad a Blwyddyn Dramor, fel y cymeradwywyd pan ddilyswyd y rhaglen.

3 Addysgir Blwyddyn 5 y Rhaglen ar Lefel 7 ond mae’r cymhwyster ar Lefel 6.
4 Ar raglen MRes rhaid cael 160 credyd ar Lefel 7.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Credydau a lefelau
- Tybir bod 10 awr o ddysgu i bob credyd.
- Dim ond pan gaiff rhaglen ei dilysu y gellir newid nifer y credydau ar y lefel uchaf (fel y disgrifir yn y tabl).
- Rhaid i Raddau Sylfaen gynnwys o leiaf 20 credyd o ddysgu seiliedig ar waith.
- Mewn rhaglenni ôl-radd hyfforddedig, ar Lefel 5 Graddau Israddedig ac ar Lefel 5 a Lefel 6 Graddau Israddedig Estynedig, gall myfyrwyr astudio 20 credyd o fodiwlau detholiadol (gweler y diffiniad yn Adran 10). Ni chaiff myfyrwyr israddedig astudio modiwlau detholiadol ar lefelau eraill.
- Mewn rhaglenni ôl-radd hyfforddedig, rhaid i'r modiwl fod ar Lefel 6 neu Lefel 7.
- Y marc llwyddo ar gyfer modiwlau Lefel 7 yw 50%, fodd bynnag, y marc llwyddo ar gyfer modiwlau Lefel 6 a ddefnyddir mewn rhaglenni ôl-radd hyfforddedig fydd 40%.

Project Ymchwil
- Gellir seilio'r Project Ymchwil ar nifer o elfennau asesu sydd â chysylltiad thematig rhyngddynt mewn (a) un modiwl Project Ymchwil craidd neu (b) nifer o fodiwlau craidd a chanddynt godau gwahanol.

Pwyntiau ymadael
- Rhaid i Dystysgrifau a Diplomâu a ddyfernir fel pwyntiau ymadael fod â'r un nifer o gredydau â rhaglenni Tystysgrif a Diploma.
- Rhaid rhoi enwau i bwyntiau ymadael rhyngol pob rhaglen pan gaiff ei dilysu. Rhaid i'r pwyntiau ymadael fod â'r un teitlau â’r cymhwyster terfynol oni chymeradwyir enwau eraill pan gaiff y rhaglen ei dilysu.
- Gellir cymeradwyo rhaglenni heb bwyntiau ymadael os oes rheswm da (e.e. os yw'n dilyn rheolau corff proffesiynol).
- Dyma'r pwyntiau ymadael posib:

| **Cymhwyster** | **Pwyntiau Ymadael Posib** |
|---|---|
| Diploma Addysg Uwch a Gradd Sylfaen | Tystysgrif Addysg Uwch |
| HND | Tystysgrif Addysg Uwch a HNC |
| Gradd Meddygaeth BMBS | Tystysgrif Addysg Uwch, Diploma Addysg Uwch, Gradd Baglor (Cyffredin) a Gradd Baglor (Anrhydedd) |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) | Tystysgrif Addysg Uwch, Diploma Addysg Uwch a Gradd Baglor (Cyffredin) |
| Gradd Israddedig Estynedig | Tystysgrif Addysg Uwch, Diploma Addysg Uwch a Gradd Baglor (Anrhydedd) |
| Diploma i Raddedigion | Tystysgrif i Raddedigion |
| Diploma Ôl-radd | Tystysgrif Ôl-radd |
| Gradd Meistr (ac eithrio MRes) | Tystysgrif Ôl-radd a Diploma Ôl-radd |
| MRes | Tystysgrif Ôl-radd |

- Nid oes pwynt ymadael o Lefel Sylfaen mewn rhaglen berthnasol.
- Nid oes pwyntiau ymadael i Dystysgrif Addysg Uwch, Tystysgrif i Raddedigion na Thystysgrif Ôl-radd.

Astudio'n rhan amser

- Bydd aelodau staff llawn amser y Brifysgol fel rheol yn astudio ar sail rhan amser.

Dim ond i wneud hyd at 90 credyd y flwyddyn y gall myfyrwyr rhan amser ar raglen israddedig gofrestru.

- Bydd myfyrwyr sy'n dilyn Gradd Meistr ran amser gyda chyfnod astudio o 2 flynedd yn cwblhau 90 credyd bob blwyddyn, neu 60 credyd mewn un flwyddyn a 120 credyd yn y flwyddyn arall. Ar yr amod bod y rhaglen yn caniatáu hyn, gall myfyrwyr astudio dros 3 blynedd, gan gwblhau 60 credyd bob blwyddyn.

Graddau Baglor - Cydanrhydedd a chyfuniadau Prif Bwnc/Is Bwnc

- Mae gan raglenni cydanrhydedd 60 credyd ym mhob pwnc ar Lefel 5 a Lefel 6. Gelwir rhaglenni cydanrhydedd yn 'A a B', er enghraifft, Hanes a Cherddoriaeth.
- Mae gan raglenni lle ceir is bwnc 80 credyd yn y prif bwnc a 40 credyd yn yr is bwnc ar Lefel 5 a Lefel 6. Gelwir y rhaglenni hyn yn 'A gyda B', er enghraifft, Y Gyfraith gyda Chymraeg. Yn yr enghraifft hon, Y Gyfraith yw'r prif bwnc 'A'.
- Yr ysgol sy'n trefnu'r pwnc a enwir gyntaf sy'n gyfrifol am y rhaglen.
- Gellir dilysu rhaglenni Anrhydedd Sengl gydag 'a' neu 'gyda' yn nheitl y rhaglen. Er enghraifft, gellir dilysu 'Swoleg gyda Chadwraeth' fel Rhaglen Anrhydedd Sengl.

Gradd Anrhydedd ar ôl Gradd Gyffredin

- Gall byrddau arholi ganiatáu i fyfyrwyr â Gradd Gyffredin ymrestru i gwblhau 120 credyd ar Lefel 6 er mwyn ennill Gradd Anrhydedd. Rhaid i ddosbarth y radd fod yn seiliedig ar y 120 credyd o fodiwlau Lefel 6.
- Cyn derbyn y cynnig hwn, dylid cynghori myfyrwyr i gysylltu â'r Swyddfa Cyllid Myfyrwyr i gael eglurhad am y goblygiadau i unrhyw gyllid sydd ar gael.

Cymwysterau Aegrotat a Chymwysterau ar ôl Marwolaeth

- Os rhwystrir myfyriwr rhag cwblhau rhaglen, gall Byrddau Arholi argymell i'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr fod cymhwyster ar ôl marwolaeth neu gymhwyster aegrotat yn cael ei ddyfarnu. Dyfernir cymwysterau ar ôl marwolaeth os bydd myfyriwr yn marw cyn cwblhau rhaglen. Dyfernir cymwysterau aegrotat os na all myfyriwr gwblhau rhaglen oherwydd salwch a bod tystiolaeth na fydd y myfyriwr yn gallu ailafael yn ei astudiaethau yn y Brifysgol nac yn unman arall. Gall Byrddau Arholi argymell cymhwyster ar ôl marwolaeth neu gymhwyster aegrotat os oes tystiolaeth y byddai'r myfyriwr wedi cwblhau'r cymhwyster pe buasai'r amgylchiadau wedi caniatáu. Gall y dystiolaeth gynnwys credydau a gwblhawyd, gwaith arall a gwblhawyd, a thystiolaeth gan oruchwylwyr a/neu diwtoriaid ynghylch gwaith ac/neu ymroddiad y myfyriwr. Os oes cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei ddyfarnu, er enghraifft oherwydd achrediad proffesiynol, gellir argymell dyfarnu cymhwyster arall.

**Rheolau Derbyniadau**

Mae’r rheolau derbyniadau i'w gweld yn y Polisi a'r Cod Ymarfer ar Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr (Polisi Derbyniadau).

Rhaid i fyfyrwyr feddu ar y cymwysterau a nodir ym Manyleb y Rhaglen a gallu diwallu'r safonau academaidd, deallusol a phersonol sydd eu hangen i gwblhau'r rhaglen.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

- Efallai y bydd angen gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rhai rhaglenni.

Uwchraddio cymhwyster ymadael

- Gall ymgeisydd y dyfarnwyd Tystysgrif neu Ddiploma fel cymhwyster ymadael wneud cais i astudio am Ddiploma, Gradd Baglor neu Radd Meistr yn yr un rhaglen neu mewn rhaglen gyfatebol.
- Pan fydd ymgeisydd a chanddo/chanddi gymhwyster ymadael Prifysgol Bangor yn cael ei d/derbyn i astudio yn y rhaglen uwch, byddid fel arfer yn gofyn i'r ymgeisydd ddychwelyd y cymhwyster ymadael.

**Trosglwyddo Credydau a Chydnabod Dysgu Blaenorol**

Gall astudio blaenorol neu brofiad blaenorol gyfrannu at y credydau sydd eu hangen ar gyfer rhaglen.  Rhaid gofyn am drosglwyddo credydau a chydnabod dysgu blaenorol wrth ymgeisio.  Gall ysgolion dderbyn:

- Canlyniadau astudio blaenorol (trosglwyddo credydau)
- Dysgu blaenorol (Cydnabod Dysgu Blaenorol)

Uchafswm y credydau y gellir eu trosglwyddo o astudio blaenorol yw:

| Y cymhwyster a astudir | Credydau | Lefel Isaf |
|---|---|---|
| Tystysgrif Addysg Uwch | 60 | 4 |
| Diploma Addysg Uwch | 120 | 4 |
| Gradd Sylfaen | 120 | 4 |
| Gradd Baglor (Anrhydedd) | 240 | 4 |
| Graddau Israddedig Estynedig | 240 | 4 |
| Tystysgrif i Raddedigion | 40 | 4 |
| Diploma i Raddedigion | 80 | 4 |
| Tystysgrif Ôl-radd | 40 | 6 |
| Diploma Ôl-radd | 80 | 6 |
| Gradd Meistr (ac eithrio MRes) | 120 | 6 |
| MRes | 60 | 6 |

Rhaid i geisiadau i Drosglwyddo Credydau gynnwys y wybodaeth ganlynol er mwyn asesu addasrwydd (os nad yw'r wybodaeth wedi ei chynnwys yn y cais

dylid ei hanfon ar wahân i'r Swyddfa Derbyniadau):

- Trawsgrifiad diweddar yn amlinellu'r holl fodiwlau, cyrsiau ac aseiniadau sydd wedi eu cwblhau neu'n cael eu cymryd fel rhan o'r rhaglen astudio gyfredol.
- Lle bo modd, y radd / dosbarth a ddisgwylir gan diwtor cyfredol, yn ddelfrydol fel rhan o eirda academaidd ysgrifenedig.
- Rhestr o'r holl gyflawniadau academaidd a chyflawniadau perthnasol eraill hyd yma.
- Datganiad o fwriad, gyda rhesymau dros ofyn am gael mynediad i Brifysgol Bangor.

Unwaith y caiff y wybodaeth hon ei derbyn, bydd y Tiwtoriaid Derbyniadau yn ceisio gwneud penderfyniad amserol ynghylch a ellir cynnig lle ar gyfer yr ail flwyddyn mynediad (neu flwyddyn ddilynol) ai peidio. Pan nad yw cyrsiau neu fodiwlau a ddilynwyd yn flaenorol yn cyfateb yn foddhaol i'r elfennau craidd a/neu i ddeilliannau dysgu'r flwyddyn gyntaf (a'r ail fel y bo'n berthnasol) ym Mhrifysgol Bangor, efallai y cynigir mynediad i'n blwyddyn gyntaf (neu i'r ail flwyddyn os yn berthnasol).

Dim ond o dan yr amodau canlynol y dylid cymeradwyo Cydnabod Dysgu Blaenorol:

- Mae'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth sy'n llai na 5 oed.
- Mae'r deilliannau dysgu, a'u lefelau, yn cyfateb i ddeilliannau dysgu rhaglen neu fodiwl y Brifysgol.
- **Ni chafodd** y dystiolaeth ei chyflwyno i'r Brifysgol o'r blaen er mwyn ennill credydau Prifysgol fel rhan o gais blaenorol i Gydnabod Dysgu Blaenorol.
- Gellir cymhwyso'r Cydnabod Dysgu Blaenorol i fodiwlau cyfan.
- Ni ddiffiniwyd cyfyngiadau o ran Cydnabod Dysgu Blaenorol ar gyfer y rhaglen pan gafodd ei dilysu.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ystyried a chymeradwyo ceisiadau i Gydnabod Dysgu Blaenorol i'w gweld yn Atodiad 2.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Diffiniadau
- Ceir diffiniad o Gydnabod Dysgu Blaenorol yn Adran 10.

Credydau
- Rhaid i'r credydau a drosglwyddir fod yn llai na 10 oed. Gall y Brifysgol ac/neu gyrff proffesiynol osod terfynau amser eraill.
- Rhaid i'r myfyrwyr gwblhau'r nifer cywir o gredydau fel y disgrifir yn Adran 1.3.
- Ni ellir trosglwyddo credydau o raglen (e.e. gradd israddedig) y mae myfyriwr eisoes wedi'i chwblhau oni bai:
    - Y daw'r credydau o gymhwyster rhyngol sy'n ffurfio rhan o lwybr dilyniant sefydledig trwy'r rhaglen y gwneir cais amdani (e.e. Tystysgrif Ôl-radd neu Ddiploma Ôl-radd o fewn Gradd Meistr), neu
    - Bod llwybr derbyniadau neu ddilyniant penodol wedi'i gymeradwyo pan ddilyswyd y rhaglen, er enghraifft, i ganiatáu mynediad i raglen achredediq broffesiynol ar ôl cwblhau rhaglen debyg nad oedd wedi ei hachredu.

Marciau a dosbarth cymwysterau
- Dylid cofnodi marc llwyddo ar y trawsgrifiad am gredydau a drosglwyddwyd neu wrth

gydnabod dysgu blaenorol.

- Ni ddylid defnyddio credydau a drosglwyddwyd i gyfrifo'r marc cyfartalog cyffredinol oni bai fod hynny o dan delerau'r cytundeb rhwng y Brifysgol a sefydliad partner cydweithredol (gan gynnwys Cytundebau Cydweddu).
- Gall y Bwrdd Arholi benderfynu a yw'r credydau a drosglwyddwyd neu'r cydnabod dysgu blaenorol o safon teilyngdod neu ragoriaeth. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os yw marc cyfartalog cyffredinol myfyriwr yn ffiniol a bod angen tystiolaeth ychwanegol cyn codi dosbarth y radd.

## 2. Cyfrifoldebau

### 2.1. Cyfrifoldebau Ysgolion

Ar ddechrau pob rhaglen, rhaid rhoi'r pethau canlynol i fyfyrwyr:

- Rhestr o'r modiwlau craidd, y modiwlau gorfodol a'r modiwlau dewisol.
- Manylion profiad gwaith a/neu leoliadau ymarfer proffesiynol.
- Gwerth credydau pob modiwl.
- Y meini prawf ar gyfer symud o'r naill lefel i'r llall.
- Y meini prawf ar gyfer llwyddo yn y rhaglen.
- Gofynion cyrff achredu neu gyrff proffesiynol.
- Manylion am Weithdrefn Camymddwyn Academaidd y Brifysgol.

Ar ddechrau pob modiwl, rhaid rhoi'r pethau canlynol i fyfyrwyr:

- Y deilliannau dysgu.
- Y dulliau asesu.
- Cyfraniad pob elfen o'r asesu at farc terfynol y modiwl.
- Dyddiad(au) cyflwyno'r gwaith cwrs a'r dyddiad(au) y dychwelir gwaith wedi ei farcio.
- Dyddiadau unrhyw arholiadau neu brofion a drefnwyd gan drefnydd y modiwl.
- Y meini prawf marcio.
- Hysbysu os yw'r dull asesu atodol yn wahanol i'r dull asesu gwreiddiol.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Deilliannau Dysgu
- Rhaid asesu holl ddeilliannau dysgu'r rhaglen a'r modiwl. Gellir asesu un deilliant dysgu trwy fwy nag un dull o asesu. Gellir asesu nifer o ddeilliannau dysgu hefyd yn defnyddio'r un dull (e.e. traethawd).

Cyfrifoldebau ysgolion.
- Rhaid rhoi i'r myfyrwyr fanylion am unrhyw newidiadau i gynnwys y rhaglen. Rhaid i ysgolion ddilyn y canllawiau ar gyfer gwneud newidiadau i gynnwys rhaglenni fel y nodir yng Nghod Ymarfer 8.
- Rhaid i ysgolion wirio bod y dyddiadau asesu ar draws modiwlau'n cael eu gwasgaru dros amser. Rhaid i'r awdurdod perthnasol o fewn yr ysgol drafod dyddiadau cyflwyno gyda threfnwyr y modiwl os oes angen gwneud newidiadau.
- Rhaid i ysgolion roi trefniadau ar waith i sicrhau:
  - Bod cwestiynau a chyfarwyddiadau asesu yn ddiamwys.
  - Bod cynnwys y modiwl yn caniatáu i'r myfyrwyr gwblhau'r asesiad(au).
  - Bod digon o amser i gwblhau'r asesiad(au).
- Bod arholiadau a gwaith cwrs yn cael eu marcio'n ddienw oni bai fod rheswm dilys nad yw hynny'n bosib.
- Rhaid rhoi gwybod i fyfyrwyr am unrhyw newidiadau i'r rheoliadau asesu sy'n dod i rym ystod eu cyfnod astudio.
- Rhaid i ysgolion sicrhau bod y gweithdrefnau'n bodloni safonau isaf y Brifysgol ar

gyfer asesu ac adborth.
- Rhaid i ysgolion sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod am y weithdrefn wirio a ddefnyddir gan yr Ysgol (gweler Adran 7.4).

## 2.2. Cyfrifoldebau Myfyrwyr

Rhaid i fyfyrwyr wneud y canlynol:
- Rhoi gwybod i'r Ysgol ym mhedair wythnos gyntaf y flwyddyn academaidd os na allant sefyll arholiadau ar ddiwrnodau penodol am resymau'n ymwneud â'u crefydd. Bydd y Brifysgol cyn belled ag y bo modd, yn cymryd y wybodaeth hon i ystyriaeth wrth lunio'r amserlen arholiadau.
- Rhoi gwybod i'r Ysgol, o fewn pythefnos i ddechrau modiwl, os ydynt yn dymuno sefyll arholiadau a chyflwyno gwaith cwrs yn Gymraeg.
- Dod o hyd i amseroedd arholiadau oddi ar yr amserlen a gyhoeddir gan y Brifysgol.
- Mynd i arholiadau a chyflwyno gwaith i'w asesu ar y dyddiadau a roddir gan y Brifysgol.
- Rhoi i'r Bwrdd Arholi unrhyw wybodaeth berthnasol ynglŷn ag amgylchiadau personol a all fod wedi effeithio ar eu canlyniadau (Gweler Adran 8). Rhaid anfon y wybodaeth hon cyn gynted â phosib a chyn cyfarfod y Bwrdd Arholi.
- Cyflwyno, gyda phob darn o waith cwrs, ddatganiad wedi'i lofnodi yn nodi bod y gwaith yn cadw at reolau'r Brifysgol o ran Uniondeb Academaidd.
- Cadw copi o bob derbynneb a geir wrth gyflwyno gwaith i'w asesu.

Cynghorir myfyrwyr i ddarllen y Siarter Myfyrwyr (https://www.bangor.ac.uk/cy/siarter-myfyrwyr), y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gynhwysol i Fyfyrwyr Anabl, a'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd.

## 3. Lefelau Llwyddo

Rhaid i fyfyrwyr lwyddo ym mhob lefel o raglen er mwyn symud ymlaen i'r lefel nesaf. Er enghraifft:

- Llwyddo yn Lefel 4 (blwyddyn gyntaf cwrs israddedig) cyn dechrau Lefel 5 (ail flwyddyn cwrs israddedig).
- Llwyddo yn Lefel 6 cyn dechrau ar Lefel 7 o raglen israddedig estynedig.

Er mwyn llwyddo ym mhob lefel rhaid bod myfyriwr wedi cael:

- Marc cyfartalog cyffredinol sydd o leiaf yn farc llwyddo*.
- Marc llwyddo*  ym mhob modiwl craidd.
- Marciau llwyddo* mewn modiwlau sy'n werth o leiaf 80 credyd.
- Dim un marc dan 30% mewn unrhyw fodiwlau ar Lefel Sylfaen a Lefel 4-6 (nid yw'n berthnasol i fodiwlau detholiadol).

*** Y Marc Llwyddo ar Lefel Sylfaen a Lefel 4-6 yw 40% oni bai y cymeradwywyd yn wahanol pan gafodd y rhaglen ei dilysu**
*** Y Marc Llwyddo ar Lefel 7 yw 40% oni bai y cymeradwywyd yn wahanol pan gafodd y rhaglen ei dilysu**

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Rhaglenni Israddedig Estynedig
- I symud ymlaen o Lefel 5 i Lefel 6, rhaid bod gan fyfyrwyr hefyd farc cyfartalog cyffredinol o 50% o leiaf ar Lefel 5 (neu fod wedi llwyddo mewn meini prawf amgen a ddiffiniwyd pan gafodd y rhaglen ei dilysu). Os nad ydynt yn cyflawni'r maen prawf ychwanegol hwn gallant, os yw'r Bwrdd Arholi'n cytuno, drosglwyddo i flwyddyn olaf rhaglen israddedig.
- I symud ymlaen o Lefel 6 i Lefel 7, rhaid i fyfyrwyr gael marciau pasio mewn modiwlau sy'n werth o leiaf 100 credyd.
- Gall myfyrwyr ar raglen israddedig sydd wedi ennill marc cyfartalog cyffredinol o 50% o leiaf ar Lefel 5 neu Lefel 6 (neu fod wedi llwyddo mewn meini prawf amgen a ddiffinnir ym Manyleb y Rhaglen), os yw'r Bwrdd Arholi'n cytuno, drosglwyddo i raglen israddedig estynedig.
- Gall gofynion cyrff achredu gyfyngu ar gyfleoedd i drosglwyddo i raglen israddedig estynedig.

Rhaglenni Ôl-radd Hyfforddedig
- Nid oes gofyn i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni ôl-radd hyfforddedig gyflawni unrhyw feini prawf cyn dechrau'r Project Ymchwil oni bai bod meini prawf o'r fath wedi eu cymeradwyo pan gafodd y rhaglen ei dilysu. Os cymeradwyir meini prawf o'r fath wrth ddilysu'r rhaglen, yna:
  - Rhaid i Fanyleb y Rhaglen ddiffinio unrhyw fodiwlau unigol y mae'n rhaid llwyddo ynddynt (marc o 50% o leiaf) cyn y gall myfyrwyr ddechrau ar y project ymchwil.  Dim ond pan fydd myfyriwr wedi cyflawni'r meini prawf ac yn gymwys i symud ymlaen y gellir marcio'r Project Ymchwil.
  - Gall y Byrddau Arholi ganiatáu i fyfyrwyr ôl-radd hyfforddedig symud

ymlaen os nad ydynt wedi cyflawni'r meini prawf, ond dim ond os oes amgylchiadau arbennig wedi eu dogfennu. Rhaid cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad yng nghofnodion y Bwrdd Arholi.

- Gellir dyfarnu'r cymhwyster ymadael priodol i fyfyriwr ôl-radd hyfforddedig na chafodd ganiatâd i symud ymlaen os yw'r cymhwyster ymadael hwnnw ar gael ar gyfer y rhaglen ac os yw'r myfyriwr wedi cyflawni'r meini prawf ar gyfer y Dystysgrif Ôl-radd (gweler Adran 4).

## 4. Cyfrifo a Dosbarthu Canlyniadau Terfynol

### Cam A. Cyfrifo'r marc canrannol cyffredinol

Yng nghyfrifiadau Cam A:
$L_4$ yw’r marc cymedrig ar draws modiwlau Lefel 4
$L_5$ yw’r marc cymedrig ar draws modiwlau Lefel 5
$L_6$ yw’r marc cymedrig ar draws modiwlau Lefel 6
$L_7$ yw’r marc cymedrig ar draws modiwlau Lefel 7
$L_{7\text{-}H}$ yw’r marc cymedrig ar draws modiwlau hyfforddedig mewn Rhaglen Ôl-radd Hyfforddedig $L_{7\text{-}PY}$ yw marc Project Ymchwil Ôl-radd Hyfforddedig

Yn achos y Dystysgrif Addysg Uwch

$$\% \text{ Gyffredinol} = L_4$$

Yn achos Diploma Addysg Uwch a Gradd Sylfaen

$$\% \text{ Gyffredinol} = [L_4 + (L_5 \times 2)] / 3$$

Yn achos Gradd Baglor (Anrhydedd)

$$\% \text{ Gyffredinol} = [L_5 + (L_6 \times 2)] / 3$$

Yn achos Gradd Israddedig Estynedig

$$\% \text{ Gyffredinol} = (0.4 \times L_6) + (0.6 \times L_7)$$

Os cymeradwyir hynny pan ddilysir y rhaglen, gellir cynnwys canlyniadau modiwlau Lefel 5 wrth gyfrifo marc cyffredinol graddau israddedig estynedig fel a ganlyn:

$$\% \text{ Gyffredinol} = [L_5 + (2 \times L_6) + (3 \times L_7)]/6.$$

Yn achos Tystysgrif i Raddedigion a Diploma i Raddedigion.

$$\% \text{ Gyffredinol} = L_6$$

Yn achos Tystysgrif Ôl-radd a Diploma Ôl-radd

$$\% \text{ Gyffredinol Diploma} = L_7$$

Yn achos Gradd Meistr ac MRes

Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau **cyn** 1 Medi

2017

Gradd Meistr (ac eithrio MRes)

$$\% \text{ Gyffredinol} = (L_{7\text{-}H} + L_{7\text{-}PY}) / 2$$

MRes

% Gyffredinol = [$L_{7\text{-}H}$ + ($L_{7\text{-}PY}$ x 2)] / 3

Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau **ar ôl** 1 Medi 2017

Gradd Meistr ac MRes

% Gyffredinol = $L_7$

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Cymwysterau ymadael

- Mae'r gweithdrefnau yn Adrannau A-E o'r adran hon hefyd yn berthnasol i gymwysterau ymadael.
- Gall y marc % cyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Ôl-radd a'r Ddiploma Ôl-radd ($L_7$ ) gynnwys y Project Ymchwil.

Gradd Baglor (Cyffredin)

- Ni chyfrifir y marc canrannol cyffredinol - nid yw meini prawf y cymwysterau'n cynnwys y marc canrannol cyffredinol.

Cyfrifo $L_4$, $L_5$, $L_6$, $L_7$ ac $L_{7\text{-}H}$

- Rhaid seilio'r marciau cymedrig ar farciau pwysol y modiwl (h.y. rhaid cymryd i ystyriaeth nifer y credydau ym mhob modiwl).
- Pan fydd myfyrwyr yn trosglwyddo credydau (Gweler Adran 1.5), rhaid seilio elfennau'r marc canrannol cyffredinol ($L_4$, $L_5$, $L_6$, $L_7$ ac $L_{7\text{-}H}$) yn unig ar fodiwlau a gwblhawyd ym Mhrifysgol Bangor.
- Os yw rhaglen yn cynnwys mwy na 120 o gredydau ar Lefel 6, rhaid seilio $L_6$ ar yr holl gredydau Lefel 6.
- Gall $L_5$, $L_6$, $L_7$ ac $L_{7\text{-}H}$ gynnwys modiwlau ar lefel is yn amodol ar y cyfyngiadau yn Adran 1.3.
- Os yw arholwyr mewnol neu Arholwyr Allanol yn addasu marciau'r holl fyfyrwyr ar fodiwl, dylid cwblhau hyn cyn cyfrifo'r marc canrannol cyffredinol.

Newidiadau i'r fformiwlâu

- Ni ellir cynnwys marciau modiwlau detholiadol yn y cyfrifiadau.
- Gall Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gymeradwyo newidiadau i nifer y modiwlau sy'n cael eu cynnwys wrth gyfrifo'r marc canrannol cyffredinol os oes gofynion proffesiynol a/neu statudol.
- Gall Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gymeradwyo newidiadau i'r fformiwlâu a ddefnyddir yng Ngham A mewn ymateb i amgylchiadau eithriadol.

**Cam B. Talgrynnu'r Marc Canrannol Cyffredinol**

Rhaid arddangos y marc canrannol cyffredinol ar gyfer gradd i un lle degol ac at ddiben pennu dosbarth gradd (Cam C) rhaid ei dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf. Rhaid i'r Byrddau Arholi dalgrynnu marciau fel a ganlyn:

39.5% neu ragor = 40%
49.5% neu ragor = 50%
59.5% neu ragor = 60%
69.5% neu ragor = 70%

Ni ddylid talgrynnu’r marc canrannol cyffredinol gan fwy na 0.5. Er enghraifft, dylid talgrynnu marc o 39.5% i 40%, ond ni ddylid talgrynnu marc o 39.3% i 40%.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Mae'r arweiniad a geir yn yr Adran hon yn berthnasol hefyd i dalgrynnu marciau modiwlau, er enghraifft, wrth gyfrifo a ydyw myfyriwr wedi bodloni'r meini prawf i symud ymlaen (gweler Adran 3) neu ar gyfer cymwysterau (fel y diffinnir yn Adran C isod).
- Mae'r arweiniad a geir yn yr adran hon hefyd yn berthnasol wrth weithio allan os yw myfyriwr yn ffiniol ai peidio (gweler Cam E), er enghraifft yn achos Gradd Baglor (Anrhydedd) rhaid talgrynnu marc o 57.5% neu ragor i 58% a rhaid ystyried y meini prawf ar gyfer codi'r myfyriwr i radd ail ddosbarth uwch (IIi). Yn yr un modd, rhaid talgrynnu marc o 37.5% neu ragor i 38% a rhaid ystyried y meini prawf ar gyfer codi'r myfyriwr i radd trydydd dosbarth (III).

**Cam C. Pennu cymhwystra cyffredinol**

I fod yn gymwys i gael unrhyw gymhwyster, rhaid bod myfyriwr wedi gwneud y pethau canlynol:

- Dilyn credydau fel y nodir yn Adran 1.3.
- Llwyddo yn yr holl fodiwlau Craidd (Y Marc Llwyddo ar Lefel Sylfaen ar Lefel 4-6 yw 40% a'r Marc Llwyddo ar Lefel 7 yw 50%, oni bai y cymeradwywyd yn wahanol wrth ddilysu’r rhaglen).
- Bodloni’r holl ddeilliannau dysgu fel y cânt eu rhestru ym manyleb y rhaglen.
- Cyflawni'r holl amodau eraill fel y cawsant eu diffinio wrth ddilysu’r rhaglen.

**Ac** yn achos Tystysgrif Addysg Uwch

- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 40% o leiaf.
- Llwyddo mewn o leiaf 80 credyd ar Lefel 4.

**Ac** yn achos Diploma Addysg Uwch

- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 40% o leiaf.
- Llwyddo mewn o leiaf 80 credyd ar Lefel 5.

**Ac** yn achos Gradd Sylfaen

- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 40% o leiaf.
- Llwyddo mewn o leiaf 100 credyd ar Lefel 5.

**Ac** yn achos Gradd Baglor (Cyffredin)

- Llwyddo mewn o leiaf 60 credyd ar Lefel 6.

**Ac** yn achos Gradd Baglor (Anrhydedd)

- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 40% o leiaf.

- Llwyddo mewn o leiaf 100 credyd ar Lefel 6.

**Ac** yn achos Gradd Israddedig Estynedig
- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 50% o leiaf.
- Llwyddo mewn o leiaf 100 credyd ar Lefel 7.

**Ac** yn achos Tystysgrif i Raddedigion
- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 40% o leiaf.

  Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau **cyn** 1 Medi 2015
  - Llwyddo mewn o leiaf 40 credyd ar Lefel 6.

  Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau **ar ôl** 1 Medi 2015
  - Llwyddo mewn o leiaf 50 credyd ar Lefel 6.

**Ac** yn achos Diploma i Raddedigion
- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 40% o leiaf.

  Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau **cyn** 1 Medi 2015
  - Llwyddo mewn o leiaf 80 credyd ar Lefel 6.

  Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau **ar ôl** 1 Medi 2015
  - Llwyddo mewn o leiaf 100 credyd ar Lefel 6.

**Ac** yn achos Tystysgrif Ôl-radd
- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 50% o leiaf.
- Llwyddo mewn o leiaf 40 credyd ar Lefel 7 (gall hyn gynnwys y Project Ymchwil).

**Ac** yn achos Diploma Ôl-radd
- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 50% o leiaf.
- Llwyddo mewn o leiaf 80 credyd ar Lefel 7 (gall hyn gynnwys y Project Ymchwil).

**Ac** yn achos Gradd Meistr (ac eithrio MRes)
- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 50% o leiaf.
- Llwyddo mewn o leiaf 80 credyd ar draws modiwlau hyfforddedig.

  Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau **ar ôl** 1 Medi 2019
  - Dim un marc o dan 40%.

**Ac** yn achos MRes
- Ennill cyfartaledd cyffredinol o 50% o leiaf.
- Llwyddo mewn o leiaf 40 credyd ar draws modiwlau hyfforddedig.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
- Mewn rhai rhaglenni, e.e. y rhai hynny sy'n arwain at achrediad proffesiynol, rhaid i fyfyrwyr gyflawni'r holl ddeilliannau dysgu.

**Cam D. Pennu Dosbarth**

Yn achos Gradd Baglor (Cyffredin):

Bydd myfyriwr yn llwyddo os bydd yn bodloni'r meini prawf a nodir yng Ngham C. Bydd myfyriwr yn methu os nad yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yng Ngham C.

Yn achos Tystysgrif Addysg Uwch, Diploma Addysg Uwch, Tystysgrif i Raddedigion a Diploma i Raddedigion pennir dosbarth y cymhwyster fel a ganlyn:

| Marc Canrannol Cyffredinol | Dosbarth Gradd |
|---|---|
| 70% a rhagor | Rhagoriaeth |
| 60% – 69% | Teilyngdod |
| 40% – 59% | Llwyddo |
| 0% – 39% | Methu |

Yn achos Tystysgrif Ôl-radd, Diploma Ôl-radd a Graddau Meistr:

| Marc Canrannol Cyffredinol | Dosbarth Gradd |
|---|---|
| 70% a rhagor | Rhagoriaeth |
| 60% – 69% | Teilyngdod |
| 50% – 59% | Llwyddo |
| 0% – 49% | Methu |

Yn achos Gradd Baglor (Anrhydedd):

| Marc Canrannol Cyffredinol | Dosbarth Gradd |
|---|---|
| 70% a rhagor | Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf - I |
| 60% – 69% | Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch – II(i) |
| 50% – 59% | Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Is – II(ii) |
| 40% – 49% | Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth - III |
| 0% – 39% | Methu |

Yn achos Gradd Israddedig Estynedig:

| Marc Canrannol Cyffredinol | Dosbarth Gradd |
|---|---|
| 70% a rhagor | Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf - I |
| 60% – 69% | Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch – II(i) |
| 50% – 59% | Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Is – II(ii) |
| 0% – 49% | Methu |

**Dylai'r Bwrdd Arholi ystyried yr holl amgylchiadau arbennig cyn pennu dosbarth tystysgrif, diploma neu radd, ni waeth os yw ymgeisydd yn ffiniol ai peidio.**

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Os yw marc myfyriwr mewn categori methu, ac nad yw'r myfyriwr yn bodloni'r meini prawf i gael ei godi i'r dosbarth uwch fel myfyriwr ffiniol (gweler Adran E), rhaid i'r Bwrdd Arholi ystyried a ddylid caniatáu i'r myfyriwr ailsefyll/ailgyflwyno neu a ddylid dyfarnu cymhwyster ymadael (os oes cymwysterau ymadael wedi eu diffinio ar gyfer y Rhaglen).  Gellir dewis y cymhwyster ymadael os yw'r myfyriwr eisoes wedi cael dau gynnig i ailsefyll, a bod dim amgylchiadau arbennig sydd heb eu hystyried eisoes.
- Nid yw Graddau Meddygaeth a Deintyddiaeth Israddedig BMBS yn cael eu dosbarthu yn y Deyrnas Unedig.

**Cam E. Adolygu Dosbarth Gradd Myfyrwyr Ffiniol**

Rhaid i Fyrddau Arholi ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael wrth adolygu dosbarth gradd myfyrwyr ffiniol, gan gynnwys amgylchiadau arbennig (gweler Adran 8). Ni ddylai Byrddau Arholi godi dosbarth gradd myfyriwr unigol i'r dosbarth uwch os yw marc cyfartalog y myfyriwr ar ôl ei dalgrynnu fwy na 2% islaw ffin isaf dosbarth. Er enghraifft, yn achos gradd Baglor, gellid ystyried dyfarnu gradd II(i) am farc o 58% yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi o dan y meini prawf a eglurir isod a/neu oherwydd amgylchiadau arbennig. Ond ni ddylid ystyried rhoi II(i) am farc o 57%. Yn yr un modd, yn achos gradd Meistr, gellid ystyried dyfarnu Rhagoriaeth am farc o 68% yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi dyfarnu Rhagoriaeth am farc o 67%.

Rhaid dyfarnu'r dosbarth uwch os yw myfyriwr yn bodloni **un** o'r meini prawf canlynol (lle mae'r marciau'n cyfeirio at farciau wedi eu talgrynnu):

Yn achos Tystysgrif Addysg Uwch, Tystysgrif i Raddedigion, Diploma i Raddedigion, Tystysgrif Ôl-radd a Diploma Ôl-radd

i. Bod marciau o leiaf ⅔ o'r credydau yn y dosbarth uwch.

Yn achos Diploma Addysg Uwch a Gradd Sylfaen

i. Bod perfformiad y myfyriwr ym mlwyddyn olaf y cwrs yn gyson â'r dosbarth uwch. Rhaid dyfarnu'r dosbarth uwch i fyfyrwyr os yw eu marc cyfartalog ar draws y modiwlau Lefel 5 yn y dosbarth uwch a bod marciau o leiaf ½ y credydau ar Lefel 5 yn y dosbarth uwch a/neu,
ii. Bod marciau o leiaf ⅔ o'r credydau ar draws Lefelau 4 a 5 yn y dosbarth uwch. Rhaid dyfarnu'r dosbarth uwch i fyfyrwyr os ydynt wedi cael marciau yn y dosbarth uwch mewn o leiaf 160 o gredydau ar draws Lefelau 4 a 5.

Yn achos Gradd Baglor (Anrhydedd)

i. Bod perfformiad y myfyriwr ym mlwyddyn olaf y cwrs yn gyson â'r dosbarth uwch. Rhaid dyfarnu'r dosbarth uwch i fyfyrwyr os yw eu marc cyfartalog ar draws y modiwlau Lefel 6 yn y dosbarth uwch a bod marciau o leiaf ½ y credydau ar Lefel 6 yn y dosbarth uwch a/neu,
ii. Bod marciau o leiaf ⅔ o'r credydau ar draws Lefelau 5 a 6 yn y dosbarth uwch. Rhaid dyfarnu'r dosbarth uwch i fyfyrwyr os ydynt wedi cael marciau yn y

dosbarth uwch mewn o leiaf 160 o gredydau ar draws Lefelau 5 a 6.

Yn achos Gradd Israddedig Estynedig:

i. Bod perfformiad y myfyriwr ym mlwyddyn olaf y cwrs yn gyson â’r dosbarth uwch. Rhaid dyfarnu'r dosbarth uwch i fyfyrwyr os yw eu marc cyfartalog ar draws y modiwlau Lefel 7 yn y dosbarth uwch a bod marciau o leiaf ½ y credydau ar Lefel 7 yn y dosbarth uwch a/neu,
ii. Bod marciau o leiaf ⅔ o’r credydau ar draws Lefelau 6 a 7 yn y dosbarth uwch. Rhaid dyfarnu'r dosbarth uwch i fyfyrwyr os ydynt wedi cael marciau yn y dosbarth uwch mewn o leiaf 160 o gredydau ar draws Lefel 6 a 7.

Yn achos Gradd Meistr:

i. Bod marc y Project Ymchwil yn y dosbarth uwch.
ii. Bod marciau o leiaf ⅔ o’r credydau o leiaf ar draws y modiwlau hyfforddedig yn y dosbarth uwch.

Gall Byrddau Arholi hefyd ddefnyddio gwybodaeth arall i gadarnhau a ddylid codi myfyriwr i ddosbarth uwch ai peidio. Er enghraifft, gall myfyriwr Gradd Meistr a chanddo/chanddi farc cyfartalog islaw 68%, ar ôl talgrynnu, gael eu hystyried ar gyfer Rhagoriaeth ar sail marc eithriadol o uchel am y Project Ymchwil.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Achosion ffiniol - mynediad uniongyrchol i Radd Baglor (Anrhydedd)

- I fyfyriwr a dderbyniwyd yn syth i Lefel 6 Gradd Baglor (Anrhydedd), ac y mae ei farc cyfartalog terfynol ar ôl talgrynnu o fewn ffin, rhaid dyfarnu'r dosbarth uwch os oes gan y myfyriwr farciau am o leiaf ⅔ o'r Lefel. 6 credyd yn y dosbarth uwch.

Byrddau Arholi - newid marciau

- Gall Bwrdd Arholi newid marc(iau) modiwl myfyriwr. Fodd bynnag, ni ddylid newid marciau modiwl dim ond er mwyn newid cyfartaledd cyffredinol myfyriwr. Rhaid bod rhesymau dros newid y marc modiwl.
- Ni ddylai Bwrdd Arholwyr fel rheol newid marciau modiwl ar sail amgylchiadau arbennig. Gellir dyfarnu dosbarth gradd uwch ar sail amgylchiadau arbennig (gweler Adran 8), ond yn yr achos hwn, dylid cadw’r marciau modiwl gwreiddiol.

Achosion ffiniol

- Rhaid cyhoeddi’r meini prawf ar gyfer ymdrin ag achosion ffiniol ar wefan y Brifysgol.
- Rhaid cofnodi'r rhesymau dros newid y dosbarth i fyfyriwr ffiniol yng nghofnodion y Bwrdd Arholi.

## 5. Gwneud yn Iawn am Fethiant

Gall myfyrwyr gwblhau asesiad atodol i wneud yn iawn am fethiant os nad ydynt wedi bodloni:

- Y meini prawf ar gyfer symud o un lefel i'r nesaf (gweler Adran 3).
- Y meini prawf ar gyfer llwyddo yn y rhaglen gyfan (gweler Adran 4).

Caiff asesiadau atodol eu diffinio yn Adran 10.

Os oes angen i fyfyriwr wneud yn iawn am fethiant, rhaid i Fyrddau Arholi gynnig **un** o'r opsiynau canlynol i fyfyrwyr:

i. Cwblhau Asesiad Atodol cyn y Bwrdd Arholi.
ii. Cwblhau Asesiad Atodol ar ôl y Bwrdd Arholi gyda therfyn amser a bennir gan y Bwrdd.
iii. Cwblhau Asesiad Atodol yn ystod cyfnod asesu atodol (e.e. Wythnos Asesiadau Atodol).
iv. Cofrestru fel myfyriwr rhan amser.
v. Cael asesiad fel myfyriwr allanol yn y flwyddyn ganlynol.

Yn achos yr holl ddewisiadau (i-v), marc llwyddo yw'r marc uchaf y gellir ei roi ar gyfer y modiwl (40% ar Lefel Sylfaen a Lefel 4-6 a 50% ar Lefel 7). Caniateir dau gynnig i fyfyrwyr wneud yn iawn am fethu modiwl.

Os caniateir i fyfyriwr ailsefyll neu ailgyflwyno asesiad oherwydd amgylchiadau arbennig, ni ddylid capio'r marc, a rhaid trin yr ailsefyll neu'r ailgyflwyno fel ymgais gyntaf (gweler Adran 8.1).

### Gwybodaeth ychwanegol:

Opsiynau ar gyfer gwneud yn iawn am fethiant:

- Dylid cynnig dewis i dim ond os yw myfyrwyr wedi ennill marc modiwl na fydd yn caniatáu iddynt symud o un lefel i'r nesaf neu lwyddo yn y rhaglen gyfan. Er enghraifft, marc modiwl o lai na 30% mewn modiwl israddedig Lefel 4.
- Dylid cynnig dewisiadau ii a iii dim ond i fyfyrwyr israddedig sydd wedi cael marc cyfartalog cyffredinol dros 25% ac sydd wedi llwyddo mewn modiwlau sy'n werth o leiaf 50 credyd.
- Dylid cynnig opsiynau iv a v dim ond os oes rhesymau derbyniol pam na ellir cynnig i'r myfyriwr (neu pam na all y myfyriwr dderbyn) un o'r dewisiadau eraill. Gellir cynnig dewisiadau iv a v hefyd os yw myfyriwr wedi methu ar ôl cael un cyfle i ailsefyll neu ailgyflwyno o dan ddewisiadau i, ii neu iii.
- Gellir cyfuno dewisiadau iv a v - h.y. cofrestru fel myfyriwr rhan amser a chael asesiad fel myfyriwr allanol i ennill credydau ychwanegol.
- Dylid caniatáu i fyfyrwyr sy'n gwneud yn iawn am fethiant ar sail rhan amser neu allanol un cyfle pellach i wneud yn iawn am fethiant os nad ydynt yn ennill y marc angenrheidiol i symud ymlaen neu i ennill cymhwyster ar ôl yr ymgais gyntaf fel myfyriwr rhan amser neu allanol.
- Fel arfer bydd yn ofynnol i fyfyrwyr allanol wneud yn iawn am fethiant drwy

gwblhau asesiad atodol yn ystod cyfnod asesu atodol. Ni ddylid gofyn i fyfyrwyr allanol gyflawni asesiad atodol sy'n gofyn am gyfleusterau arbenigol nad ydynt ar gael ond i fyfyrwyr cofrestredig. Efallai y bydd angen defnyddio dulliau asesu amgen.

- Os oes amgylchiadau arbennig eithriadol, gellir caniatáu i fyfyriwr ailadrodd semester neu flwyddyn.
- Wrth wneud yn iawn am fethiant, os nad yw'r asesiad atodol yn defnyddio'r un dull â'r asesiad gwreiddiol, dylid egluro hyn ar ddechrau pob modiwl (er enghraifft, os oedd yr asesiad gwreiddiol yn seiliedig ar weithgaredd na ellir ei ailadrodd heb fynediad at gyfleusterau penodol).
- Ni fydd myfyrwyr sy'n cwblhau rhaglen sy'n gysylltiedig â chymhwyster proffesiynol o anghenraid neu'n awtomatig yn cael cyfle i wneud yn iawn am fethiant.
- Gall gofynion asesu atodol rhaglen fod yn wahanol i'r rhai a nodir yn y rheoliad hwn os cawsant eu cymeradwyo pan ddilyswyd y rhaglen, e.e. i fodloni gofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol.
- Os nad yw'n bosib i fyfyriwr wneud yn iawn am fethiant yn y modiwl gwreiddiol (er enghraifft os oedd y modiwl yn seiliedig ar leoliad na ellir ei ail-wneud), gellir rhoi cyfle i'r myfyriwr gwblhau modiwl amgen (o dan opsiwn iv neu v). O gymryd modiwl amgen, ni ddylid capio marciau arholiadau na gwaith cwrs ac ni ddylid cynnwys marc y modiwl a ddisodlwyd yn nhrawsgrifiad y myfyriwr.

Amseriad ailsefyll ac ailgyflwyno

- Dylai ysgolion roi cyfleoedd i wneud yn iawn am fethiant cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle i symud ymlaen neu gwblhau.
- Rhaid gorffen gwneud yn iawn am fethiant o fewn terfynau amser y rhaglen (Adran 1.1). Os bydd myfyriwr yn rhedeg allan o amser, dim ond trwy gymeradwyo estyniad y gellir caniatáu i'r myfyriwr gwblhau'r asesiad atodol.
- Os nad yw myfyriwr ôl-radd hyfforddedig yn cyflwyno o fewn y terfyn amser neu o fewn cyfnod yr estyniad, oni bai fod amgylchiadau arbennig, rhaid dyfarnu iddynt Dystysgrif Ôl-radd neu Ddiploma Ôl-radd (os yw hynny ar gael ar gyfer y Rhaglen). Gall myfyrwyr wneud cais i gwblhau'r rhaglen fel y disgrifir yn Adran 1.4.
- Rhaid ailgyflwyno Project Ymchwil sy'n rhan o gwrs ôl-radd hyfforddedig o fewn deuddeg mis i'r dyddiad y mae'r Brifysgol yn hysbysu'r myfyriwr bod y cyflwyniad gwreiddiol wedi methu.

Marciau

- Ni ddylid caniatáu i fyfyrwyr gwblhau asesiad atodol dim ond er mwyn gwella marc modiwl neu ddosbarth y cymhwyster. Yr eithriadau i hynny yw:
    - Pan ganiateir asesiad atodol er mwyn cyflawni marc llwyddo sy'n ofynnol gan gyrff proffesiynol.
    - Pan fo myfyriwr ar Lefel 5 rhaglen israddedig neu raglen israddedig estynedig wedi cyflawni'r meini prawf i symud ymlaen, ond bod ganddo/ganddi farciau modiwl yn yr ystod 30-39% a'i fod/bod yn dymuno ceisio codi'r marciau hyn i 40%.
    - Pan fo myfyriwr ar Lefel 6 rhaglen israddedig estynedig wedi cyflawni'r meini prawf i symud ymlaen, ond bod ganddo/ganddi farciau modiwl yn yr ystod 30-39% a'i fod/bod yn dymuno ceisio codi'r marciau hyn i 40%.
    - Cytunwyd i hyn gan Fwrdd Arholi oherwydd amgylchiadau arbennig
- Ar ôl asesiad atodol rhaid defnyddio'r marc uchaf (e.e. os oes gan fyfyriwr farc o 30%

o asesiad atodol a marc gwreiddiol o 35%, rhaid defnyddio'r marc o 35%).
  - Bydd rhaglen BMBS yn defnyddio'r marc asesu diweddaraf a gyflwynwyd neu a enillwyd gan fyfyriwr.

Ffioedd

- Codir ffi am gwblhau modiwlau fel myfyriwr allanol, am gofrestru fel myfyriwr rhan amser ac am ailgyflwyno Project Ymchwil Ôl-Radd Hyfforddedig.

## 6. Asesu

### 6.1 Llwyth asesu

Rhaid i'r llwyth asesu mewn modiwl ddilyn Fframwaith Asesu Prifysgol Bangor (https://my.bangor.ac.uk/quality/course/valid.php.cy) a chaiff ei gymeradwyo pan gaiff y modiwl ei ddilysu.  Bydd y broses ddilysu hefyd yn ystyried gofynion rhaglenni penodol, gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol a gofynion chyrff achredu, a all fod yn wahanol i'r gofynion a nodir yn y Fframwaith.

### 6.2 Trefnu Asesiadau

Rhaid i drefnwyr modiwlau hysbysu myfyrwyr o'r canlynol:

- Gofynion pob asesiad yn y modiwl
- Y nifer geiriau neu hyd yr holl asesiadau yn y modiwl
- Y broses gyflwyno ar gyfer pob asesiad yn y modiwl
- Hyd a fformat unrhyw arholiadau yn y modiwl
- Y meini prawf marcio ar gyfer pob asesiad yn y modiwl

O ran arholiadau, mae gan y Brifysgol weithdrefnau sy'n cwmpasu:

- Cyfrinachedd a diogelwch papurau arholiad.
- Prosesau i argraffu digon o gopïau o bapurau pob arholiad.
- Amserlennu arholiadau.
- Lleoliadau sy'n cynnig amodau addas i arholiad.
- Goruchwylio arholiadau.
- Arholiadau ar gyfer myfyrwyr sydd â Chynllun Cefnogi Dysgu Personol.
- Storio papurau arholiad.
- Systemau i fyfyrwyr gael mynediad at bapurau arholiad blaenorol.

O ran gwaith cwrs, mae gan y Brifysgol weithdrefnau sy'n:

- Darparu system ddiogel a chadarn ar gyfer cyflwyno, cyrchu ac archifo gwaith cwrs.
- Caniatáu cofnodi'n fanwl gywir y dyddiad a'r amser cyflwyno.
- Caniatáu i arholwyr allanol gyrchu'r gwaith.
- Darparu ffyrdd i farcwyr ddarparu adborth a marciau i fyfyrwyr.
- Sicrhau y gellir adnabod myfyrwyr trwy gyfrwng eu rhifau adnabod Prifysgol.
- Diffinio'r fformatau ffeil derbyniol (e.e. PDF, Word, Excel, PowerPoint).
- Caniatáu defnyddio meddalwedd i wirio am lên-ladrad (ac eithrio pan nad yw ffurf yr asesiad, e.e. profi mathemategol, yn caniatáu hynny).

Dylai arholwyr allanol gymeradwyo asesiadau drafft fel y nodir yn y Cod Ymarfer i Arholwyr Allanol: Cyrsiau Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig (https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/code06.php.cy).

### 6.3 Cyflwyno Gwaith Cwrs a Phrojectau Ymchwil Graddau Meistr

Disgrifir y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am estyniadau, y rhesymau

derbyniol dros gyflwyno gwaith yn hwyr, a rhesymau annerbyniol am fethu â chyflwyno gwaith mewn pryd yn Adran 8.

Rhaid marcio gwaith a gyflwynir hyd at wythnos ar ôl y dyddiad cyflwyno ond rhaid capio'r marc ar y marc llwyddo (40% ar Lefel Sylfaen a Lefel 4-6 [neu farc llwyddo arall fel y cafodd ei gymeradwyo trwy'r broses ddilysu] a 50% ar Lefel 7 [neu farc llwyddo arall fel y cafodd ei gymeradwyo trwy'r broses ddilysu]). Os oes rhesymau da (e.e. gofynion cyrff proffesiynol), gellir rhoi marc o 0% am waith a gyflwynir o fewn wythnos i'r dyddiad cau. Rhaid rhoi marc o 0% am unrhyw waith a gyflwynir 1 wythnos ar ôl y dyddiad cau. Rhaid defnyddio'r marciau canrannol hyn sydd wedi eu capio ar gyfer pob darn o waith, p'un a oedd y gwaith wedi'i farcio'n wreiddiol yn defnyddio graddfa gategorïaidd neu raddfa rifiadol. Rhaid cadw'r holl waith heb ei farcio ar gyfer y Byrddau Arholi.

Gall myfyrwyr gyflwyno Project Ymchwil ar gyfer Gradd Meistr, fan gynharaf, 3 mis cyn diwedd y cyfnod astudio. Rhaid i geisiadau i gyflwyno Project Ymchwil yn gynt na 3 mis cyn diwedd y cyfnod astudio gael eu cymeradwyo gan yr Adran Gweinyddu Myfyrwyr.

Ni chaiff myfyrwyr newid Project Ymchwil ar ôl ei gyflwyno; fodd bynnag gall Bwrdd Arholi ofyn i fyfyriwr wneud mân gywiriadau i Broject Ymchwil sydd wedi llwyddo a gall ohirio cadarnhau'r canlyniad cyffredinol hyd nes y bydd y myfyriwr wedi cwblhau'r cywiriadau.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Ceir arweiniad ar gyflwyno Project Ymchwil ar gyfer Gradd Meistr yn Atodiad 1 ond gall ysgolion ddarparu arweiniad amgen er mwyn cydymffurfio â chonfensiynau neu ofynion penodol y ddisgyblaeth.
- Rhaid i Ysgolion roi arweiniad amgen os yw Project Ymchwil yn seiliedig ar nifer o fodiwlau â chodau gwahanol (gweler Adran  1.3).

### Cadw Gwaith wedi ei Asesu

Rhaid cadw copïau o waith sydd wedi ei asesu am y cyfnodau amser a nodir yn Amserlen Cadw Data'r Brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/UniRetSched.php.cy).

Os na ellir cadw gwaith (e.e. portffolios neu weithlyfrau labordy), rhaid cofnodi a chadw marciau a sylwadau.

### 6.5 **Cyflwyno Gwaith yn Gymraeg**

Mae gan bob myfyriwr yr hawl i sefyll arholiadau a chyflwyno gwaith cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, ni waeth ym mha iaith y cânt eu haddysgu. Nid yw hyn yn cynnwys modiwlau iaith lle mae'n rhaid i fyfyrwyr ateb cwestiynau mewn iaith benodol.

Lle bo hynny'n rhesymol bosibl, dylid marcio'r gwaith gwreiddiol (arholiadau a gwaith cwrs) ac osgoi ei gyfieithu. Os oes rhaid cyfieithu gwaith i'w farcio, i'w wirio, neu i'w anfon at arholwr allanol:

- Rhaid rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfarfod ag Arweinydd Cyfrwng Cymraeg yr Ysgol i

edrych ar gopi o'r gwaith wedi ei gyfieithu, ac i roi sylwadau ar y cyfieithiad cyn iddo gael ei farcio. Yn y cyfarfod, rhaid i'r myfyriwr godi unrhyw bryderon ynghylch terminoleg neu gysyniadau pwnc-benodol. Arweinydd Cyfrwng Cymraeg yr Ysgol sy'n gyfrifol am ddatrys unrhyw bryderon trwy drafod gyda'r sawl a osododd yr asesiad ac/neu'r cyfieithydd.

- Wrth gyfieithu gwaith o'r Gymraeg i'r Saesneg bydd y cyfieithwyr i'r graddau y bo hynny'n bosibl yn cyfleu yn Saesneg yn union beth sydd wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg. Pan fo ystyriaethau ieithyddol sy'n golygu nad oes modd cyfleu'r fersiwn Gymraeg wreiddiol yn Saesneg trwy'r cyfieithiad yn unig, gall y cyfieithydd ychwanegu Nodyn gan y Cyfieithydd i egluro a thynnu sylw'r marciwr at hyn.
- Gall y marciwr ymgynghori â'r cyfieithydd i drafod y cyfieithiad.
- Os yw'r cyflwyniad, y cysodiad neu'r diwyg wedi eu cynnwys yn y meini prawf marcio, dylai'r marciwr edrych ar y gwreiddiol a'r gwaith wedi ei gyfieithu.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Pan fydd myfyriwr yn cwblhau darn estynedig o waith cwrs (e.e. traethawd hir) neu draethawd ymchwil yn Gymraeg, a bod y gwaith dan oruchwyliaeth aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg, gall y myfyriwr gyflwyno drafftiau i'r cyfieithydd cyn cyflwyno'r fersiwn terfynol, yn unol ag unrhyw bolisi gan yr Ysgol am y broses oruchwylio. Mae hyn er mwyn galluogi'r goruchwyliwr i fonitro cynnydd y gwaith a rhoi adborth. Rhaid i'r myfyriwr gysylltu â'r cyfieithydd cyn cyflwyno drafft, i drafod ar ba ddyddiadau y cyflwynir y gwaith i'w gyfieithu, y maes pwnc a hyd disgwyliedig y gwaith.
- Oherwydd gofynion rheoleiddio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC), rhaid cwblhau asesiadau crynodol terfynol mewn rhaglenni israddedig Deintyddol, Meddygaeth a Fferylliaeth yn Saesneg.
- Rhaid cwblhau rhai asesiadau crynodol nad ydynt yn rhai terfynol mewn rhaglenni a reoleiddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn Saesneg.

## 6.6 Arholiadau Llafar (Viva Voce)

Caiff cwmpas arholiadau llafar (*Viva Voce*) eu diffinio yn Adran 10.

Dim ond os cymeradwywyd hynny wrth ddilysu'r rhaglen neu er mwyn darparu asesiad amgen fel sy'n ofynnol gan Gynllun Cefnogi Dysgu Personol y myfyriwr (yn amodol ar unrhyw ofynion gan gyrff proffesiynol, statudol a rheolaethol) y dylai arholiadau llafar (*Viva Voce)* gyfrannu at farciau myfyrwyr unigol.

Ni ddylai Byrddau Arholi ddefnyddio arholiadau llafar (*Viva Voce)* wrth bennu dosbarth cymhwyster myfyrwyr ffiniol.

Fel rhan o'r broses Arholi Allanol, gall Arholwyr Allanol gynnal arholiadau llafar (*Viva Voce*) gyda phob myfyriwr neu gyda sampl o fyfyrwyr. Yn yr achos hwn, eu diben yw helpu Arholwr Allanol i gymedroli rhaglen. Ni ddylai Bwrdd Arholi ddefnyddio tystiolaeth o arholiadau llafar (*Viva Voce)* wrth ystyried myfyrwyr unigol. Fodd bynnag, gall Arholwyr Allanol ddefnyddio'r dystiolaeth wrth roi sylwadau ynghylch safonau cyffredinol y rhaglen. Gall Arholwyr Allanol ddefnyddio tystiolaeth o arholiadau llafar (V*iva Voce)* i argymell addasu marciau'r holl fyfyrwyr mewn carfan – dim ond ar lefel modiwl y gellir cymhwyso addasiadau o'r fath. Yna rhaid i argymhelliad o'r fath gael ei ystyried gan y

Bwrdd Arholi. Ni ddylid defnyddio arholiad llafar (*Viva Voce)* fel sail i ostwng marc myfyriwr unigol neu ostwng dosbarth cymhwyster myfyriwr unigol.

Gellir trefnu cyfweliadau â myfyrwyr ar gais Cadeirydd y Bwrdd Arholi neu enwebai fel rhan o Weithdrefn Uniondeb Academaidd y Brifysgol ( https://www.bangor.ac.uk/regulations/procs/proc05.php.cy). Ni ddylid galw'r cyfweliadau hynny yn arholiadau llafar (*Viva Voce)*a chaiff eu cwmpas ei nodi yn y Weithdrefn uchod.

## 7. Marcio ac Adborth

### 7.2 Graddfeydd Marcio

Gall yr asesu gynnwys arholiadau, profion dosbarth a gwaith cwrs (traethawd, labordy, adroddiad, project ac ati). Fel arfer dylid marcio'r gwaith gan ddefnyddio graddfa gategorïaidd: Yn y Wybodaeth Ychwanegol isod darperir amgylchiadau pan ellir marcio gwaith yn defnyddio canran. Mae Cynllun Marcio Categorïaidd Prifysgol Bangor fel a ganlyn:

| Marc Categorïaidd | Lefel Gradd Israddedig | Lefel Gradd Meistr | Marc % Cyfatebol |
|---|---|---|---|
| A** | Dosbarth Cyntaf | Rhagoriaeth | 100 |
| A* | | | 95 |
| A+ | | | 87 |
| A | | | 80 |
| A- | | | 74 |
| B+ | Ail Ddosbarth Uwch | Teilyngdod | 68 |
| B | | | 65 |
| B- | | | 62 |
| C+ | Ail Ddosbarth Is | Llwyddo | 58 |
| C | | | 55 |
| C- | | | 52 |
| D+ | Trydydd Dosbarth | Methu | 48 |
| D | | | 45 |
| D- | | | 42 |
| E+ | Methu | | 38 |
| E | | | 35 |
| E- | | | 32 |
| F1 | | | 25 |
| F2 | | | 15 |
| F3 | | | 5 |
| F4 | | | 0 |
| HG | Heb Gyflwyno | Heb Gyflwyno | 0 |

Y marc Llwyddo ar gyfer modiwl unigol ar Lefel Sylfaen a Lefelau 4-6 yw 40% (oni bai y cymeradwywyd yn wahanol wrth ddilysu'r modiwl, a 50% ar Lefel 7 (oni bai y cymeradwywyd yn wahanol wrth ddilysu'r modiwl).

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Er mwyn bodloni disgwyliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol, cymhwysir dulliau pennu safon i asesiadau ar gyfer rhaglenni gradd israddedig Deintyddiaeth, Meddygaeth a Fferylliaeth.

Meini Prawf Marcio

- Mae'r meini prawf sy'n gysylltiedig â dosbarth graddau a marciau categorïaidd i'w gweld yn Atodiad 3. Mae meini prawf cyffredinol i'w defnyddio mewn amlinelliadau modiwl i'w gweld yn Atodiad 4.

Marciau categorïaidd a marciau canrannol

- Caniateir marcio canrannol os yw'r pwnc neu'r asesiad yn golygu bod hynny'n ofynnol a lle gellir canfod gwahaniaethau cymharol fach mewn perfformiad yn fanwl gywir. Mae'r enghreifftiau lle mae marcio rhifiadol yn bosibl yn cynnwys:
    - Meysydd pwnc lle bydd asesiadau sy'n cynnwys cyfrifo'n arwain at farciau rhifiadol ar draws yr holl ystod marciau o 0%-100%.
    - Profion/arholiadau amlddewis lle bydd cyfanswm y marciau dros nifer fawr o gwestiynau unigol yn arwain at farciau canrannol ar draws yr holl ystod marciau o 0% i 100%.
    - Asesiadau sy'n cynnwys adrannau, y caiff pob un ohonynt eu marcio allan o rif a bennir ymlaen llaw. Er enghraifft, arholiad sy'n cynnwys cwestiynau atebion byr, y mae pob un wedi ei farcio allan o 10. Mewn achosion o'r fath mae pob cwestiwn, er gwaethaf ei nodi fel rhif, yn cael ei farcio'n gategorïaidd i bob diden; h.y. dewisir y marc o raddfa gydag 11 categori, o 0 i 10. Bydd cyfanswm y marciau dros y cwestiynau unigol hyn i gyd yn arwain at farciau canrannol dros yr ystod gyfan o farciau o 0% i 100%.
    - Asesiad lle mae'r cynllun marcio a/neu'r cyfarwyddyd marcio yn caniatáu i bob elfen o'r cynllun a/neu'r cyfarwyddyd marcio gael eu marcio'n gategorïaidd ond gan alluogi i farc rhifiadol terfynol gael ei gyfrifo ar sail y gwahanol elfennau.
- Mewn rhai achosion, yn arbennig wrth farcio lleoliadau ymarfer proffesiynol, gellir defnyddio marciau llwyddo/methu heb rannu'r graddau llwyddo neu fethu yn gategorïau pellach. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn achosion pan roddir dim ond marc llwyddo/methu, disgwylir y bydd myfyrwyr yn cael adborth manwl am y gwaith.
- Rhaid cyfrifo marciau cyffredinol modiwl fel canrannau.

Rhoi gwybod i fyfyrwyr am eu marciau

- Rhaid rhoi gwybod i fyfyrwyr am eu marciau mewn modd sy'n gyson ac yn unol â'r cynllun marcio a ddewiswyd.  Er enghraifft, rhaid rhoi gwybod am farciau asesiad a farciwyd yn defnyddio'r Cynllun Marcio Categorïaidd fel marc categorïaidd ac eu rhoi fel canran.
- Rhaid rhoi gwybod i fyfyrwyr am farciau cyffredinol modiwl fel canrannau a'u harddangos fel cyfanrif (ar ôl talgrynnu).

Marciau llwyddo

- Ni all myfyrwyr symud o'r naill lefel i'r llall gyda marciau modiwl o dan 30% ar Lefel Sylfaen a Lefelau 4-6 ac o dan 40% ar Lefel 7, neu farc arall fel y cymeradwywyd wrth ddilysu'r rhaglen (Gweler Adran 3).

## 7.2 Canllawiau Marcio Categorïaidd

Ni ddylai ysgolion ddefnyddio systemau lle mae marcwyr yn dyfarnu marciau canrannol a drosir i'r raddfa gategorïaidd fel swyddogaeth weinyddol. Byddai'r broses hon yn dileu manteision posibl marcio categorïaidd ac yn creu cam diangen sy'n dod â pherygl yn ei sgil o wallau wrth drosi a thrawsgrifio.

Ceir arweiniad ar ddefnyddio Cynllun Marcio Categorïaidd a chyfrifiadau sy’n cynnwys marciau categorïaidd yn Atodiad 6.

## 7.3 Marcio Gwaith Cwrs sy’n mynd dros y Terfyn Geiriau

Gall Trefnwyr Modiwlau dderbyn a marcio gwaith os yw'r cyfrif geiriau heb fod dros 10% yn uwch na'r terfyn geiriau a osodwyd.   Rhaid rhoi gwybod i fyfyrwyr, gydag unrhyw waith cwrs, os na ddefnyddir y rheol 10% hon. Rhaid rhoi gwybod i fyfyrwyr ym mriff yr asesiad o ganlyniadau mynd dros y terfyn geiriau. Mae'r cosbau fel a ganlyn:

- Rhoi marc sy'n cymryd i ystyriaeth y meini prawf marcio ac i ba raddau yr aethpwyd dros y terfyn geiriau.
- Anwybyddu unrhyw waith sydd dros y terfyn geiriau, e.e. peidio â marcio unrhyw waith ar ôl tudalen 4.

## 7.4 Gwirio Marciau

Pwrpas gwirio yw:

- Gwneud yn siŵr bod arholiadau a gwaith cwrs wedi cael eu marcio'n unol â briff yr asesiad a'r meini prawf marcio.
- Sicrhau bod y marcio'n deg ac yn gyson.
- Sicrhau bod y safonau tebyg i’w cael ar draws modiwlau.

Disgwylir i Ysgolion wirio pob asesiad. Rhaid i Ysgolion wneud y canlynol:

- Bod â gweithdrefnau i benderfynu ar y dull i’w ddefnyddio i wirio pob asesiad.
- Bod â gweithdrefnau i wirio marciau asesiadau lle nad oes asesiad ysgrifenedig e.e. cyflwyniadau llafar neu berfformiadau.
- Nodi pan na chaiff samplo ei ganiatáu a bod rhaid gwirio'r holl waith.
- Bod â gweithdrefnau i ymdrin â gwahaniaethau sylweddol rhwng marcwyr a Gwirwyr.
- Darparu manylion i fyfyrwyr am y gweithdrefnau gwirio.

Ar gyfer pob modiwl, rhaid i Ysgolion ddewis un o'r opsiynau canlynol:

| | |
|---|---|
| Cadarnhau | Rhaid i'r Gwiriwr gadarnhau bod y marciau wedi eu dyrannu yn unol â'r diffiniad ym mriff yr asesiad a bod adborth priodol wedi cael ei roi, sy'n cyd-fynd â'r marc a roddwyd. Oni bai bod maint y dosbarth yn fach (gweler y tabl isod), caiff y cadarnhad ei seilio ar sampl o asesiadau.<br><br>Enghreifftiau o ba bryd y gellid defnyddio hyn:<br>• Pan nad yw marc y modiwl yn cyfrif tuag at Gymhwyster a/neu,<br>• Pan fo'r asesiad yn werth cyfran fechan o farciau'r modiwl a/neu,<br>• Pan ellir marcio'r asesiad heb brin ddim barn oddrychol (e.e. prawf amlddewis). |
| Cymedroli | Rhaid i'r Gwiriwr gadarnhau bod marciau wedi'u dyrannu'n briodol yn unol â'r cynllun marcio, bod y marcio wedi bod yn gyson a bod adborth o ansawdd uchel wedi'i roi, sy'n cyd-fynd â'r marc a roddwyd. Oni bai bod maint y dosbarth yn fach (gweler y tabl isod), caiff y cymedroli ei seilio ar sampl o asesiadau.<br><br>Enghreifftiau o ba bryd y gellid defnyddio hyn:<br>• Pan fo marc y modiwl yn cyfrif tuag at Gymhwyster a bod yr asesiad yn werth llai na 50% o farc y modiwl a/neu,<br>• Pan nad oes llawer o gyfle i fyfyrwyr amrywio'r ffordd y cynhyrchir yr asesiad (e.e. mae'r asesiad yn golygu cwblhau adroddiad ar ffurf templed) a/neu,<br>• Arholiad yn cynnwys cwestiynau atebion byr. |
| Marcio Dwbl Safonol | Mae'r sylwadau a'r marciau a roddwyd gan y marciwr (marcwyr) cyntaf ar gael i'r Gwiriwr. Bydd y Gwiriwr yn marcio'r asesiad ac yn defnyddio'r marc cyntaf a'u marc eu hunain i werthuso a chadarnhau bod marciau wedi'u dyrannu'n briodol yn unol â'r cynllun marcio, bod y marcio wedi bod yn gyson a bod adborth o ansawdd uchel wedi'i roi, sy'n cyd-fynd â'r marc a roddwyd. Oni bai bod maint y dosbarth yn fach (gweler y tabl isod), caiff hyn ei seilio ar sampl o asesiadau.<br><br>Enghreifftiau o ba bryd y gellid defnyddio hyn:<br>• Pan fo marc y modiwl yn cyfrif tuag at Gymhwyster a bod yr asesiad yn werth mwy na 50% o farc y modiwl a/neu,<br>• Pan fo cyfle i fyfyrwyr ymateb i friff yr asesiad mewn amryw o ffyrdd (e.e. traethawd neu ateb arholiad) a/neu, |

| | |
|---|---|
| | • Pan fo’n rhaid llwyddo mewn modiwl i fodloni gofynion corff proffesiynol. |
| Marcio Dwbl Dall | Mae'r Gwiriwr yn marcio'r asesiad heb weld y sylwadau na'r marciau a roddwyd gan y marciwr (marcwyr) cyntaf.<br>Bydd y Gwiriwr yn marcio pob asesiad.<br>Cytunir ar y marc terfynol rhwng y marciwr cyntaf a'r Gwiriwr.<br><br>Enghreifftiau o ba bryd y gellid defnyddio hyn:<br>• Yr asesiad yw'r unig asesiad yn y modiwl a/neu mae'r asesiad yn rhoi cyfle i fyfyrwyr wneud gwaith annibynnol a/neu ddatblygu syniadau gwreiddiol (e.e. traethawd hir). |

Yn y tabl hwn, defnyddir y term 'asesiad' ar gyfer gwaith cwrs a gyflwynwyd a llyfrau ateb mewn arholiadau.

Pan fydd Gwirwyr yn samplo gwaith, rhaid i faint y sampl fod fel a ganlyn:

| Nifer y Myfyrwyr | Maint y Sampl |
|---|---|
| Hyd at 5 | pawb (100%) |
| 5-10 | 50% |
| 11-50 | 25% |
| 51-200 | 10% |
| Dros 200 | 20 asesiad |

Gellir samplo gwaith ar hap, ond rhaid i’r sampl gynnwys gwaith ar draws yr ystod marciau gan gynnwys yr holl waith sydd wedi methu.

Os yw'r Gwiriwr yn marcio sampl o waith, a bod y Gwiriwr yn fodlon â’r marc cyntaf, yna rhaid cofnodi'r marc cyntaf ar gofnod y myfyriwr.

Os bydd y Gwiriwr yn ystyried a *sampl* o waith, ni ddylid addasu marciau darnau unigol o waith a gyflwynwyd. Fodd bynnag, mewn achos o farc methu, gall y Gwiriwr awgrymu ailedrych ar ddarn unigol o waith os oes digon o dystiolaeth y gallai'r myfyriwr fod wedi llwyddo. Pan fydd y gwiriwr yn ystyried a *sampl* o waith, gellir addasu marciau carfan gyfan o fyfyrwyr (neu grŵp o fyfyrwyr a atebodd gwestiwn penodol).

Os bydd y Gwiriwr yn rhoi ystyriaeth i *bob* asesiad, gellir addasu marc darnau unigol o waith a gyflwynwyr a rhaid i'r marciwr cyntaf a'r Gwiriwr gytuno ar y marc addasedig. Rhaid i'r adborth a roddir i'r myfyriwr gyd-fynd â'r marc y cytunwyd arno.

Ar gyfer asesiadau sy'n cael eu gwirio yn defnyddio Marcio Dwbl Dall, rhaid i Ysgolion fod â gweithdrefn, sydd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Astudiaethau, i ymdrin â gwahaniaethau rhwng y marc cyntaf a marc y Gwiriwr.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Gweithdrefn wirio ysgolion

- Disgwylir bod gan Ysgolion ddatganiad sy'n disgrifio eu gweithdrefnau gwirio. Rhaid i'r datganiad fod wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Astudiaethau (neu bwyllgor/grŵp enwebiedig) a rhaid iddo fod ar gael i'r myfyrwyr. Rhaid i'r datganiad hefyd fod ar gael i'w ystyried mewn Archwiliadau Ansawdd Mewnol.
- Rhaid i Ysgolion ddisgrifio'r weithdrefn wirio (gweithdrefnau gwirio) a ddefnyddir ar gyfer gwaith nad yw'n ysgrifenedig megis perfformiadau a chymwyseddau ymarferol. Rhaid i'r gweithdrefnau fod yn gyson â'r rheiny a ddisgrifir ar gyfer asesiadau yn yr Adran hon.
- Pan fo argaeledd staff yn effeithio ar allu Ysgol i ymgymryd ag opsiwn penodol ar gyfer gwirio, dylai'r Ysgol: i) ymgymryd o leiaf â'r opsiwn Cymedroli, a ii) sicrhau bod y Bwrdd Arholi yn rhoi ystyriaeth i ddadansoddiad ARQUE y modiwl ac y caiff hynny ei gofnodi. Rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi neu ei enwebai gymeradwyo'r dull gweithredu hwn.

Dewis Gwirwyr

- Gall aelod staff â llai o brofiad o'r maes pwnc weithredu fel Gwiriwr. Rhaid cytuno sut i baru marcwyr a Gwirwyr cyn dechrau pob blwyddyn academaidd. Rhaid osgoi 'parau clyd' a 'pharau cilyddol parhaus'.
- Gellir cyfieithu asesiadau i'w gwirio (gweler Adran 6.5)

Cofnodion yr Ysgol

- Dylid cadw cofnod o ddeilliannau'r gwirio, a dylai hynny fod ar gael i'w archwilio gan Arholwyr Allanol ac mewn Archwiliadau Ansawdd Mewnol.

Arholwr Allanol

- Ni ddylid gofyn i'r Arholwr Allanol weithredu fel Gwiriwr ychwanegol.

## 7.5 Adborth i Fyfyrwyr ar Waith Cwrs ac Arholiadau

Diben asesu yw:

- Dangos bod myfyrwyr wedi cyflawni deilliannau dysgu a chaniatáu i fyfyrwyr ddatblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau cysylltiedig.
- Perthnasu cyrhaeddiad myfyrwyr â safonau cenedlaethol a fframweithiau cymwysterau'r Deyrnas Unedig.
- Galluogi myfyrwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

Pwrpas adborth yw:

- Darparu esboniad o'r sail dros y marc a ddyfarnwyd.
- Galluogi myfyrwyr i asesu eu cynnydd academaidd.
- Darparu gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n galluogi datblygiad academaidd personol trwy nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

Dylid rhoi adborth ar waith cwrs, yn dilyn marcio a gwirio, yn ddim hwyrach na phedair wythnos o'r dyddiad cyflwyno (heb gyfrif wythnosau gwyliau). Rhaid darparu marciau arholiadau wedi eu gwirio yn ddim hwyrach na phedair wythnos o ddiwedd y cyfnod arholi. Os na fydd adborth ar gael wedi pedair wythnos, rhaid i Bennaeth yr Ysgol (neu

enwebai) roi eglurhad ysgrifenedig i fyfyrwyr.

Ni ddylid rhyddhau adborth i fyfyrwyr ar ddydd Gwener, nac ar y diwrnod gwaith olaf cyn i’r Brifysgol gau.  Y tu allan i hynny, argymhellir y dylid rhyddhau adborth cyn 2pm fel bod modd cysylltu â gwasanaethau'r Brifysgol.

Pan nad yw asesiad yn cael ei gyflwyno’n electronig, rhaid cadw copïau o asesiadau wedi’u marcio ar gyfer yr Arholwr Allanol yn unol ag Amserlen Cadw Data’r Brifysgol. Ni ddylid dychwelyd llyfrau ateb arholiad i fyfyrwyr. Fodd bynnag, dylai fod gan fyfyrwyr fynediad at eu llyfrau ateb a dylent allu trafod canlyniadau eu harholiadau gyda'u tiwtoriaid.

Rhaid i farciau fod ar gael i fyfyrwyr trwy FyMangor.  Caiff ysgolion eu hannog i roi’r marc cyfartalog a’r ystod marciau i fyfyrwyr (e.e. ystod a gwyriad safonol) ar gyfer pob modiwl. Rhaid hysbysu'r myfyrwyr fod yr holl farciau’n rhai dros dro hyd nes iddynt gael eu cadarnhau gan y Bwrdd Arholi.

# 8. Amgylchiadau Arbennig

## 8.1 Ceisiadau am Estyniadau a Sefyll Arholiadau fel pe bai am y Tro Cyntaf

Gall myfyrwyr wneud cais am estyniad i ddyddiad cyflwyno gwaith cwrs oherwydd amgylchiadau arbennig. Gall myfyrwyr hefyd wneud cais, oherwydd amgylchiadau arbennig, i gael sefyll arholiad ar ddyddiad hwyrach; gelwir hyn yn sefyll arholiadau fel pe bai am y tro cyntaf (yr ymgais gyntaf).

Mae'r Brifysgol yn gweithredu system ar gyfer gwneud cais am hyn, a rhaid i bob cais gael eu hadolygu a'u hasesu i benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cais. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno ceisiadau trwy'r Ganolfan Ceisiadau ar FyMangor, a a phan fo hynny'n bosibl, rhaid iddynt gyflwyno cais cyn dyddiad cyflwyno'r gwaith cwrs gwaith cwrs a chyn dyddiad arholiad.

Mae ceisiadau am estyniad yn benodol i ddarnau unigol o waith cwrs. Gall myfyrwyr wneud cais i sefyll grŵp o arholiadau fel pe bai am y tro cyntaf (e.e. os oes amgylchiadau a fydd yn eu rhwystro rhag bod yn bresennol yn arholiadau Semester 1) neu i sefyll un arholiad fel pe bai am y tro cyntaf (e.e. os oes amgylchiadau a fydd yn eu rhwystro rhag bod yn bresennol yn rhai arholiadau, ond nid pob un, yn Semester 1).

Yn Adran 8.2 nodir rhesymau derbyniol (a'r dystiolaeth sydd ei hangen) i ganiatáu estyniadau a chael sefyll arholiadau fel pe bai am y tro cyntaf, a'r rhesymau dros beidio â rhoi caniatâd. Ni all myfyrwyr wneud cais i sefyll arholiad fel pe bai am y tro cyntaf trwy hunan-ardystio.

Mae'n rhaid i ysgolion fod â grŵp i ystyried a chaniatáu estyniadau ar gyfer pob lefel o raglen. Mae'n rhaid i'r grŵp hefyd gymeradwyo ceisiadau i sefyll arholiadau fel pe bai am y tro cyntaf. Gall y grŵp gynnwys staff megis y Cyfarwyddwr Cwrs, yr Arweinydd Rhaglen, y Tiwtor Cydanrhydedd neu'r Cyfarwyddwr Asesu. Rhaid i ysgolion sicrhau bod holl aelodau'r grŵp yn gweithredu mewn modd cyson. Wrth benderfynu ar hyd estyniad i ddarn o waith cwrs, mae'n rhaid i Ysgolion sicrhau bod yr estyniad yn gyson â'r cyfnod amser y bu i'r amgylchiadau arbennig gael effaith arno.

Os caniateir sefyll arholiad fel pe bai am y tro cyntaf, gall Ysgolion ddewis pryd y caiff yr arholiadau hynny, sy'n cael eu sefyll fel pe bai am y tro cyntaf, eu trefnu ar gyfer modiwlau, gan ddefnyddio'r opsiynau isod:

- Wythnos Ddarllen Semester dau (ar gyfer arholiadau Semester 1)
- Gwyliau'r Pasg (ar gyfer arholiadau Semester 1)
- Wythnos 4 cyfnod arholiadau'r haf (ar gyfer arholiadau Semester 1 a/neu Semester 2). Os dewisir yr opsiwn hwn ar gyfer myfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu rhaglen, bydd yn rhoi cyfle iddynt raddio gyda'u carfan ym mis Gorffennaf.
- Yn ystod Wythnos Asesiadau Atodol. Yn ddibynnol ar amseriad yr Wythnos Asesiadau Atodol, os dewisir yr opsiwn hwn ar gyfer myfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu rhaglen, yna efallai na fydd y myfyrwyr yn gallu graddio gyda'u carfan ym mis Gorffennaf.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Gall gofynion a nodir gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol fod yn wahanol i'r trefniadau uchod.
- Fel arfer, dylai'r asesiadau a ddefnyddir pan fydd myfyriwr yn sefyll arholiad fel pe bai am y tro cyntaf fod yn yr un fformat â'r asesiad gwreiddiol. Eithriadau i hyn fyddai bod yr asesiad gwreiddiol yn seiliedig ar weithgaredd na ellir ei ailadrodd.
- Ar sail amgylchiadau arbennig, gellir caniatáu i fyfyriwr roi cynnig arall ar waith cwrs a gwblhawyd neu ar asesiad trwy arholiad heb i'r marciau fod wedi eu capio.  Byddai hyn yn cael ei ystyried fel sefyll arholiad fel pe bai am y tro cyntaf a gellir caniatáu hynny os oedd y marc gwreiddiol yn is neu'n uwch na'r marc llwyddo.

**8.2 Caniatáu Estyniadau a Sefyll Arholiadau fel pe bai am y tro Cyntaf:** Rhesymau Derbyniol ac Annerbyniol

Fel rheol ni chaiff ceisiadau am estyniadau o fwy na phedair wythnos eu cymeradwyo.

Dyma'r Rhesymau Derbyniol am ganiatáu estyniadau a sefyll arholiadau fel pe bai am y tro cyntaf:

| **Rheswm**[1] | **Tystiolaeth** |
|---|---|
| Salwch Corfforol a/neu Salwch Meddwl[2] | Llythyr Meddyg neu lythyr gan Weithiwr Iechyd Proffesiynol priodol |
| Ymgysylltiad â'r Gwasanaethau Myfyrwyr | Hysbysiad gan y Gwasanaethau Myfyrwyr trwy e-bost, trwy gyfrwng Nodyn gan Diwtor neu drwy Gynllun Cefnogi Dysgu Personol |
| Profedigaeth/Absenoldeb Tosturiol | Dim angen tystiolaeth |
| Salwch Teuluol | Tystiolaeth ddogfennol lle bo'n briodol |
| Trais Rhywiol | Dim angen tystiolaeth (awgrymu trafodaeth gydag un aelod o staff a fydd yn darparu nodyn cyfrinachol [mynediad cyfyngedig] ac ail nodyn i gadarnhau bod trawma difrifol wedi digwydd.) |
| Trais ar sail Rhywedd | Dim angen tystiolaeth (awgrymu trafodaeth gydag un aelod o staff a fydd yn darparu nodyn cyfrinachol [mynediad cyfyngedig] ac ail nodyn i gadarnhau bod trawma difrifol wedi digwydd.) |
| Argyfwng Teuluol | Tystiolaeth ddogfennol lle bo'n briodol |

| | |
|---|---|
| Absenoldeb Mamolaeth / Tadolaeth / Mabwysiadu | Ffurflen briodol |
| Cyfweliad am Swydd (gan gynnwys Etholiadau Sabothol Undeb y Myfyrwyr) | Copi o'r gwahoddiad priodol |
| Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (dim ond os yw'r Cynllun Cefnogi Dysgu Personol yn cyfeirio at ymestyn dyddiadau cyflwyno asesiadau) | Cyfeiriad at y Cynllun Cefnogi Dysgu Personol |
| Trosedd (e.e. bwrgleriaeth) | Bydd angen Rhif Cyfeirnod y Drosedd |
| Gormodedd o ymrwymiadau proffesiynol (yn achos myfyrwyr rhan amser sydd mewn gwaith llawn amser ac sydd o dan bwysau gwaith eithriadol neu newid mewn amgylchiadau gwaith) | Cadarnhad gan y cyflogwr |
| Bod gwasanaeth(au) digidol gofynnol y Brifysgol ddim ar gael | Cadarnhad gan Wasanaethau Digidol Prifysgol Bangor |
| Cynrychioli gwlad/rhanbarth neu'r Brifysgol mewn digwyddiad cystadleuol | Cymeradwyaeth Undeb y Myfyrwyr yn y Ganolfan Geisiadau (bydd angen copi o'r llythyr yn hysbysu eu bod wedi cael eu dewis yn achos cynrychiolaeth genedlaethol/ranbarthol) |

[1] Gellir ystyried rhesymau eraill fesul achos.  Gan gyfeirio'n benodol at wŷs ar gyfer gwasanaeth rheithgor, o ystyried y gellir gofyn i nodi tri chyfnod arall pan fyddant ar gael yn ystod y 12 mis nesaf (a all fod y tu allan dymhorau'r Brifysgol), ni fydd gwasanaeth rheithgor fel arfer yn cael ei ystyried yn rheswm derbyniol.  Dylid rhoi ystyriaeth fesul achos i gyfnodau estynedig o wasanaeth rheithgor a allai ymestyn i mewn i dymor y Brifysgol.

[2] Yn achos gwaith cwrs, gall myfyrwyr wneud cais am estyniad o 7 diwrnod calendr trwy hunan-ardystio. Dim ond ar sail salwch y caniateir hunan-ardystio. Ar gyfer unrhyw gais arall (a cheisiadau am estyniadau hwy na 7 diwrnod ar sail salwch) bydd gofyn darparu'r dystiolaeth a nodir yn y Tabl uchod. Ni fydd ceisiadau am un estyniad ar ôl y llall ar gyfer yr un asesiad ar sail hunan-ardystiad yn cael eu derbyn.  Caniateir i fyfyrwyr wneud tri chais ar sail hunan-ardystiad bob blwyddyn academaidd. Ni all ceisiadau i sefyll arholiadau fel pe bai am y tro cyntaf fod ar sail hunan-ardystiad.

Mae rhesymau annerbyniol dros ofyn am estyniadau ac am sefyll arholiadau fel pe bai am y tro cyntaf yn cynnwys:

- Bod ag arholiadau (eraill).
- Bod â gwaith cwrs arall i'w wneud.
- Bod heb fynediad at gyfrifiadur.
- Methiant cyfrifiadur, neu golli cyfrifiadur neu ffeiliau electronig - dylai myfyrwyr wneud copi wrth gefn digonol o'u gwaith yn gyson.
- Camddarllen amserlenni, dyddiadau cau neu ganllawiau aseiniadau.
- Methu â chael hyd i unrhyw lyfrau/papurau/ffynonellau ar y pwnc.
- Rheoli amser yn wael.
- Bod ar leoliad ymarfer proffesiynol
- Bod ar wyliau.
- Digwyddiadau eraill y byddai wedi bod yn rhesymol eu rhagweld neu gynllunio ar eu cyfer.
- Straen neu banig mewn ymateb i arholiadau na chafwyd diagnosis ohono fel salwch.
- Ymrwymiadau cystadleuol neu gynrychioliadol (oni bai eu bod fel y manylir uchod)
- Amhariad i gynlluniau teithio (ac eithrio pan fo tywydd eithafol, neu amgylchiadau tebyg tu hwnt i reolaeth y myfyriwr, wedi atal teithio ac y gellir darparu tystiolaeth o hyn).

### 8.3 Adrodd am amgylchiadau arbennig

Rhaid i fyfyrwyr roi gwybod am unrhyw amgylchiadau arbennig (megis afiechyd neu brofedigaeth) a all effeithio ar eu presenoldeb, ar eu gallu i gyflwyno gwaith neu ar eu canlyniadau. Rhaid rhoi gwybod am yr amgylchiadau cyn gynted â phosib trwy'r Ganolfan Geisiadau ar FyMangor. Mae gan Fyrddau Arholi yr hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol ynghylch amgylchiadau arbennig. Y terfyn amser ar gyfer adrodd am amgylchiadau arbennig sy'n ymwneud â Semester penodol yw canol dydd ar ddiwrnod olaf y Semester hwnnw.

Gellir derbyn adroddiadau am Amgylchiadau Arbennig a gyflwynir ar ôl y terfyn amser hwnnw yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi ar yr amod: 1) bod rheswm da dros beidio ag adrodd cyn y terfyn amser a/neu 2) bod yr adroddiad yn ymwneud â gwybodaeth nad oedd yn hysbys cyn y terfyn amser.

Rhaid i ysgolion drefnu asesiad(au) i fyfyrwyr sy'n colli dyddiad cyflwyno neu arholiad oherwydd amgylchiadau arbennig (Gweler Adran 5). Rhaid i Ysgolion roi cyfle i fyfyrwyr gwblhau gwaith a asesir o fewn modiwl. Gall yr asesiad fod yr un fath â'r un gwreiddiol neu gall fod yn asesiad amgen, yn amodol ar unrhyw ofynion gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol. Dylid ystyried yr asesiad hwn fel pe bai'n ymgais gyntaf. Os nad yw'n bosib trefnu'r asesiad cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi, rhaid i'r Bwrdd Arholi sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r amgylchiadau arbennig.

Rhaid i Fyrddau Arholi greu is-grŵp i ystyried Adroddiadau am Amgylchiadau Arbennig cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi. Rhaid i'r is-grŵp gategoreiddio amgylchiadau arbennig fel y nodir isod a darparu argymhellion i'r Bwrdd o ran pa gamau i'w cymryd.

| **Cod** | **Argymhelliad i'r Bwrdd Arholi** | **Defnyddir fel rheol pan fydd un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:** |
|---|---|---|
| AA-01 | Dim gweithredu | • Nid yw'r Amgylchiadau Arbennig yn gysylltiedig ag astudiaethau'r myfyriwr.<br>• Gwnaed lwfans ar gyfer yr Amgylchiadau Arbennig eisoes, e.e. trwy ganiatáu amser ychwanegol neu addasu ffurf yr asesiadau.<br><br>**Enghraifft**: Salwch a ddigwyddodd ar ôl cyfnod asesu'r haf.<br>**Enghraifft**: Salwch a effeithiodd ar arholiadau Semester 1 ond caniatawyd amser ychwanegol yn yr arholiadau. |
| AA-02 | Caniatáu cyfle i ail-wneud yr asesiad fel pe bai'n ymgais gyntaf heb gapio'r marc na chodi’r cap a oedd ar y cyflwyniad gwreiddiol. | • Ni wnaed lwfans ar gyfer yr Amgylchiadau Arbennig eisoes mewn perthynas ag asesiadau mewn modiwl(au) penodol.<br>• Mae’r Amgylchiadau Arbennig yn berthnasol i fodiwlau penodol ac nid oes tystiolaeth eu bod wedi cael effaith y tu hwnt i'r modiwlau penodol hynny.<br>• Codi’r cap am gyflwyno’n hwyr ar sail Amgylchiadau Arbennig sy’n dderbyniol.<br><br>**Enghraifft**: Problemau personol/problemau iechyd sy'n effeithio ar leoliad/modiwl proffesiynol sy'n elfen graidd o’r rhaglen. |
| AA-03 | Caniatáu eithriad ar gyfer aseiniadau neu amnewid marc newydd ar gyfer asesiadau sydd werth hyd at gyfanswm o 50% mewn dau fodiwl, neu uchafswm o 40 credyd (oni bai fod gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol yn gwahardd hynny). | • Mae'r amgylchiadau arbennig wedi golygu nad oedd yn bosib cwblhau'r aseiniadau na sefyll arholiadau.<br>• Cyflwynwyd yr amgylchiadau arbennig yn rhy hwyr i ganiatáu estyniad neu sefyll arholiad fel pe bai am y tro cyntaf.<br><br>**Enghraifft**: Anaf a effeithiodd ar waith cwrs Semester 1, mae rhesymau y gellir eu cyfiawnhau dros pam na ofynnodd y myfyriwr am estyniadau i’r dyddiadau cyflwyno, ac nid yw'n ymarferol gosod asesiad amgen. |
| AA-04 | Codi dosbarth y radd | • Mae'r myfyriwr wedi cael marc ffiniol.<br>• Mae tystiolaeth bod yr Amgylchiadau Arbennig wedi cael effaith y tu hwnt i'r modiwlau penodol y gwnaed lwfans ynddynt ar gyfer yr Amgylchiadau Arbennig.<br>• Ni ellir gwneud lwfans ar gyfer Amgylchiadau Arbennig yn ôl-weithredol ar lefel modiwl e.e. oherwydd ffurf yr asesiad.<br><br>**Enghraifft**: Salwch a effeithiodd ar un Semester ond y cafwyd diagnosis ohono ar ôl y cyfnod arholiadau/asesu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • **Enghraifft**: Salwch a effeithiodd ar y flwyddyn academaidd. Gwnaed lwfans ar sail y symptomau ond cafodd y myfyriwr ddiagnosis o gyflwr difrifol ar ôl y cyfnod arholiadau/asesu. |
| AA-05 | Gohirio'r penderfyniad hyd nes y bydd manylion pellach ar gael | • Gofynnwyd am ragor o fanylion/cadarnhad o'r Amgylchiadau Arbennig.<br>• Gellir gwneud penderfyniad mewn Bwrdd Arholi arall (e.e. gohirio o Fwrdd Arholi Lefel 5 i Fwrdd Arholi Lefel 6 (terfynol)).<br><br>**Enghraifft**: Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y myfyriwr yn annigonol neu mae'r myfyriwr yn disgwyl am gadarnhad meddygol o Amgylchiadau Arbennig. |

Rhaid i Fyrddau Arholi beidio â newid marciau y mae myfyrwyr wedi eu hennill mewn blynyddoedd cynharach ac sydd eisoes wedi eu cadarnhau gan Fwrdd Arholi ac eithrio yn yr achosion hyn: 1) pan hysbyswyd myfyrwyr bod y marciau'n parhau'n rhai dros dro a/neu 2) ar sail amgylchiadau arbennig yr adroddwyd amdanynt ar ôl y Bwrdd Arholi, ac y derbyniwyd cyflwyno'r hwyr oherwydd hynny.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

- Gall gofynion a nodir gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol olygu bod angen gwahanol derfynau amser i'r rhai a nodir uchod er mwyn adrodd am Amgylchiadau Arbennig.
- Os dewisir AA-03 fel rheol dylai'r marc newydd fod yn seiliedig ar aseiniadau o fewn modiwl, yn hytrach nag ar draws pob modiwl. Gall marciau newydd fod yn seiliedig ar yr holl aseiniadau eraill a gwblhawyd mewn modiwl (hynny yw, y marc cymedrig ar draws arholiadau a gwaith cwrs mewn modiwl) neu gall fod yn seiliedig ar is-set o aseiniadau (e.e. marc cymedrig adroddiadau labordy eraill). Mae'n rhaid i ysgolion ystyried a all fod yn well caniatáu cyflwyno'n hwyr a/neu ganiatáu i fyfyrwyr sefyll arholiad fel pe bai am y tro cyntaf yn ddiweddarach yn ystod blwyddyn olaf y rhaglen, hyd yn oed os yw hyn yn eu dal yn ôl rhag graddio.
- Os dewisir AA-05, dylai myfyrwyr gael terfyn amser ar gyfer darparu'r wybodaeth ychwanegol. Dylai'r Bwrdd Arholi gytuno a chofnodi'r canlyniad y gall y Cadeirydd ei gymeradwyo os darperir gwybodaeth ychwanegol foddhaol.

## 9. Byrddau Arholi

Mae Rheoliadau Byrddau Astudiaethau'r Brifysgol ar gael ar wefan y Brifysgol. Y Bwrdd Astudiaethau, wrth iddo weithredu fel Bwrdd Arholi, sy'n gyfrifol am gymeradwyo marciau a chymwysterau terfynol.

Mae gan Fyrddau Arholi ddisgresiwn wrth bennu dosbarth cymwysterau myfyrwyr unigol. Rhaid i Fyrddau Arholi ddehongli rheoliadau'r rhaglen gan ddefnyddio'r ddogfen hon a phrofiad o arferion da mewn addysg uwch. Ni ellir cwestiynu na gwrthdroi barn academaidd Byrddau Arholi. Rhaid i'r Bwrdd Arholi wneud y pethau canlynol:

- Sicrhau bod unrhyw weithdrefnau/penderfyniadau'n gyson â'r rheoliadau hyn.
- Sicrhau eu bod wedi rhoi ystyriaeth i amgylchiadau arbennig myfyrwyr.
- Cadarnhau marciau modiwlau a marciau cyffredinol pob myfyriwr.
- Penderfynu a yw myfyrwyr yn gymwys i gael eu hailasesu os gwnaethant fethu modiwl.
- Cadarnhau dosbarth cymwysterau

Rhaid i Fyrddau Astudiaethau weithredu fel Bwrdd Arholi i bob rhaglen sy'n arwain at gymhwyster. Ni chaiff myfyrwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd Astudiaethau fod yn bresennol yn y Bwrdd Arholi. Rhaid i'r Bwrdd Arholi gynnwys:

- Pennaeth yr Ysgol (neu enwebai) fel Cadeirydd
- Staff academaidd yr Ysgol(ion) a fu'n rhan o gyflwyno'r rhaglen(ni).
- Arholwr (Arholwyr) Allanol yr holl raglenni sy'n cael eu hystyried

Gall yr Ysgol hefyd wahodd cyfranwyr allanol i'r rhaglen (e.e. aelodau staff er anrhydedd) i fynychu'r Bwrdd Arholi.

Er mwyn cadarnhau graddau rhaglen, rhaid i Arholwyr Allanol a'r Bwrdd Arholi fod wedi cwblhau eu dyletswyddau fel y nodir yn y Cod Ymarfer i Arholwyr Allanol: Cyrsiau Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig: (https://www.bangor.ac.uk/regulations/codes/code06.php.cy).

Disgwylir y bydd Ysgolion yn asesu myfyrwyr fel y nodir yn y rheoliad hwn. Os bydd gan Fyrddau Arholi, oherwydd amgylchiadau eithriadol, set anghyflawn o farciau ar gyfer rhaglenni israddedig, mae arweiniad ar gael sy'n egluro'r gweithdrefnau y dylai Byrddau Arholi eu dilyn https://www.bangor.ac.uk/regulations/documents/assessment-disruption-2023-cy.pdf.

Rhaid i Bennaeth yr Ysgol sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cymryd o drafodion y Bwrdd Arholi.

Dylid cymryd cofnodion ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Arholi er mwyn:

- Cofnodi trafodaethau perthnasol a'r penderfyniadau a wneir.
- Cofnodi manylion unrhyw addasiadau i farciau modiwlau.
- Cofnodi'r rhesymau dros argymhellion/penderfyniadau arbennig mewn perthynas â myfyrwyr, e.e. trefniadau arholi arbennig, achosion meddygol, camymddwyn academaidd, cymwysterau ymadael.

- Cofnodi sylwadau'r Arholwyr Allanol.

Dylai'r agenda ddilyn amlinelliad sylfaenol fel a ganlyn:

i. Dyddiad y cyfarfod.
ii. Datgan unrhyw wrthdaro buddiannau.
iii. Rhestr o'r rhaglenni.
iv. Yr aelodau sy'n bresennol ac ymddiheuriadau.
v. Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi.
vi. Unrhyw gamau gweithredu gan y Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf.
vii. Cadarnhau marciau modiwlau - er mwyn cadarnhau bod y Bwrdd yn cytuno â'r marciau fel y'u rhestrir mewn atodiad sydd ynghlwm. Mae'n rhaid i'r adran hon gynnwys gwybodaeth gyffredinol am y rhesymau dros unrhyw newidiadau i'r marciau (Gall y rhesymau fod fel y maent yn Adran 8 ac ni ddylid cynnwys manylion penodol o natur feddygol/bersonol).
viii. Dyfarnu Graddau, Diplomâu a Thystysgrifau.
ix. Penderfynu ynglŷn ag unrhyw wobr neu ddyfarniad.
x. Sylwadau'r Arholwr Allanol.
xi. Llofnodi Ffurflen Brosesu Cadarnhau'r Canlyniadau (CORP) a'r Ffurflen Hysbysiad Canlyniadau (NORF).

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Byrddau Arholi Eraill

- Gall Byrddau Arholi gymeradwyo is-Fyrddau (e.e. Byrddau 'Mewnol' sy'n gyfrifol am raglen neu grŵp o raglenni) sy'n adrodd i'r Bwrdd Arholi.
- Rhaid i is-Fwrdd cymeradwy gyfarfod i ystyried Adroddiadau am Amgylchiadau Arbennig ac adrodd argymhellion i'r Bwrdd Arholi.
- Rhaid i'r Bwrdd Arholi (neu'r is-Fwrdd cymeradwy) adolygu'r dadansoddiad ystadegol o farciau modiwlau ar gyfer y rhaglenni sy'n cael eu hystyried ac adrodd unrhyw argymhellion i'r Bwrdd.
- Mewn rhaglenni israddedig, gwneir penderfyniadau ynglŷn â symud o un lefel i'r nesaf gan Fwrdd Arholi'r Senedd.
    - Rhaid i Fwrdd Arholi'r Ysgol (neu is-Fwrdd cymeradwy) gymeradwyo marciau modiwlau'r holl fyfyrwyr sy'n cael eu hystyried gan Fwrdd Arholi'r Senedd.
- Sefydlir Byrddau Arholi ar gyfer rhaglenni cydweithredol fel y diffinnir yn y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol ac yn y Llawlyfr Dilysu.

Amseriad cyfarfodydd

- Rhaid cynnal cyfarfodydd Byrddau Arholi ar gyfer cymwysterau israddedig terfynol o fewn pythefnos i ddiwedd y Semester olaf.
- Rhaid cynnal cyfarfodydd Byrddau Arholi ar gyfer Lefel Sylfaen, Lefel 4 a Lefel 5 o fewn 3 wythnos i ddiwedd y Semester olaf.
- Rhaid cynnal cyfarfodydd o Fwrdd Arholi'r Senedd o fewn 5 wythnos i ddiwedd Semester 2.
- Rhaid cynnal cyfarfodydd Byrddau Arholi ar gyfer cymwysterau ôl-radd hyfforddedig o fewn pedair wythnos i ddiwedd y Semester olaf.

Gall amseriad Byrddau Arholi fod yn wahanol i'r rhai a nodir uchod oherwydd gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol.

Agenda a Chofnodion

- Dylai Ysgrifennydd y Bwrdd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd baratoi agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Arholi.
- Dylai cofnodion Byrddau Arholi gael eu llunio gan yr Ysgrifennydd neu enwebai a’u llofnodi gan y Cadeirydd.
- Rhaid cadw'r cofnodion yn unol ag Amserlen Cadw Cofnodion y Brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/UniRetSched.php.cy).

Gwrthdaro buddiannau

- Rhaid i aelodau staff roi gwybod i Gadeirydd y Bwrdd Arholi am unrhyw fuddiannau personol, ac unrhyw ymwneud neu berthynas ag unrhyw fyfyrwyr. Rhaid i'r Cadeirydd benderfynu a oes rhaid datgan yr amgylchiadau hynny yn y cyfarfod. Rhaid i'r aelod staff adael y cyfarfod tra bydd achos y myfyriwr yn cael ei drafod. Rhaid cofnodi yng nghofnodion y Bwrdd unrhyw fuddiant sy’n cael ei ddatgan a/neu bod aelod o staff wedi gadael y cyfarfod.

Hysbysiad canlyniadau

- Rhaid i Ysgolion lenwi dwy ffurflen ar gyfer yr Adran Gweinyddu Myfyrwyr:

  Ffurflen Brosesu Cadarnhau’r Canlyniadau (CORP): Mae'r ffurflen hon yn cofnodi'r rhestr o fodiwlau a ystyriwyd gan yr Arholwyr Allanol, a'r rhestr o raglenni a ystyriwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Arholi. Llofnodir y ffurflen hon gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi a’r holl Arholwyr Mewnol ac Allanol sy'n bresennol. Os, o dan amgylchiadau eithriadol na all yr un Arholwr Allanol fod yn bresennol yn y cnawd yng nghyfarfod y Bwrdd Arholi, rhaid anfon copi o’r ffurflen CORP at o leiaf un Arholwr Allanol er mwyn cael eu llofnod.

  Ffurflen Hysbysiad Canlyniadau (NORF): Mae'r ffurflen hon yn cofnodi canlyniadau myfyrwyr unigol. Dylai'r ffurflen hon gael ei llofnodi, fel rheol ar ddiwedd cyfarfod y Bwrdd Arholi, gan y Cadeirydd.

## 10. Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Arholiad | Asesiad a gwblheir ar ddyddiad diffiniedig ac o fewn terfynau amser penodol, ac o dan amodau a rheolau ymddygiad sydd wedi eu diffinio'n glir. Fel rheol trefnir arholiadau gan y Brifysgol yn ystod cyfnodau neilltuol ar ddiwedd modiwlau. |
| Arholiad Llafar (*Viva Voce*) | Arholiad llafar a all fod yn asesiad wedi'i ddilysu o fewn modiwl neu'n rhan o'r broses arholi allanol. |
| Arholwr Allanol | Ymgynghorydd annibynnol a diduedd sy'n darparu sylwadau gwybodus ar safonau a chyrhaeddiad myfyrwyr. Fel rheol, bydd yn uwch-academydd mewn Prifysgol arall, neu'n ymarferydd profiadol yn y maes pwnc. |
| Asesiad Atodol | Asesiad a wneir i wneud yn iawn am fethiant mewn modiwl. Byddai asesiad atodol fel arfer yn cynnwys un asesiad sy'n bodloni holl ddeilliannau dysgu'r modiwl, ac eithrio lle bo gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol yn wahanol. Caiff y marc ei gapio ar y marc llwyddo. |
| Asesu | Mae Asesu'n elfen hanfodol o'r broses ddysgu. Fe'i defnyddir i farnu cyrhaeddiad myfyrwyr ac i benderfynu a ydynt wedi cyflawni deilliannau dysgu'r modiwl a'r rhaglen.<br>Hefyd defnyddir yr enw 'asesiad' i ddisgrifio gweithgarwch (e.e. arholiadau, gwaith cwrs). |
| Byrddau Arholi | Byrddau sy'n gyfrifol am asesu, dilyniant a dosbarth cymwysterau. |
| Byrddau Astudiaethau | Byrddau sy'n gyfrifol am faterion academaidd sy'n gysylltiedig â rhaglenni. |
| Canlyniadau Modiwlau Cofrestriad Proffesiynol | Gweler Deilliannau Dysgu.<br>Modiwlau y mae'n ofynnol eu hastudio, a llwyddo ynddynt, fel rhan o raglen sy'n arwain at gofrestriad gyda Chorff Proffesiynol. Mae'r modiwlau hyn yn cael eu defnyddio mewn rhaglenni sy'n rhagori ar yr isafswm credyd gofynnol ar gyfer y Lefel yr astudiwyd arni. Sylwer – rhaid llwyddo hefyd ym mhob dull asesu mewn modiwlau o'r fath. |
| Cofrestru | Y broses y mae myfyrwyr sydd wedi ymrestru yn ei dilyn i fod yn fyfyrwyr 'cofrestredig' ar gyfer y sesiwn academaidd gyfredol. Rhaid i fyfyrwyr ail-gofrestru ar gyfer pob blwyddyn academaidd o'u hastudiaethau. |
| Credyd | Mesur o'r deilliannau dysgu y gellir eu cyflawni mewn oriau tybiannol. Mae 1 credyd yn gyfwerth â 10 awr dybiannol. |

| | |
|---|---|
| Cydnabod Dysgu Blaenorol | Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol yn cynnwys cydnabod dysgu blaenorol, cydnabod dysgu ardystiedig blaenorol, cydnabod dysgu blaenorol trwy brofiad, cydnabod dysgu ardystiedig blaenorol ac/neu ddysgu blaenorol trwy brofiadol a chydnabod dysgu a chyflawniad blaenorol. Nid yw Cydnabod Dysgu Blaenorol yn cynnwys trosglwyddo a chronni credydau. |
| Cyfnod Astudio | Y cyfnod o amser pan fo myfyriwr wedi ymrestru ar raglen astudio. |
| Cymhwyster | Y cymhwyster a ddyfernir (e.e. Baglor yn y Celfyddydau, BA). |
| Cynllun Astudio | Gweler Rhaglen. |
| Deilliannau Dysgu | Datganiadau, ar lefel rhaglen ac ar lefel modiwl, am yr hyn y gellir disgwyl i fyfyrwyr ei wybod, ei ddeall, ac/neu ei wneud o ganlyniad i brofiad dysgu. |
| Dilysu | Y broses o gymeradwyo rhaglen. Gweler y Cod Ymarfer ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni |
| Dosbarth | Categori (dosbarth) cymhwyster (e.e. llwyddo/methu neu Cyntaf, Ail Ddosbarth Uwch ac ati) |
| Dull archwilio | Ffordd o gofrestru ac o astudio modiwl pan fo'r myfyriwr yn mynychu dosbarthiadau ac yn cael mynediad at ddeunyddiau dysgu ond heb gwblhau asesiadau.  Bydd modiwlau a fynychwyd trwy'r dull archwilio yn ymddangos ar drawsgrifiad y myfyriwr ond heb nodi gwerth credyd na marciau.  Efallai na fydd rhai modiwlau neu weithgareddau o fewn modiwlau ar gael i'w hastudio trwy'r dull archwilio. |
| Gwaith Cwrs | Unrhyw asesiad nad yw'n Arholiad nac yn Brawf. |
| Lefel 4 | Mae llwyddo ar Lefel 4 yn adlewyrchu'r gallu i ddatblygu dull trylwyr o gaffael sylfaen wybodaeth eang; defnyddio ystod o sgiliau arbenigol; gwerthuso gwybodaeth a'i defnyddio i gynllunio a datblygu strategaethau ymchwilio a phennu atebion i amrywiaeth o broblemau na ellir eu rhagweld; a gweithredu mewn amrywiaeth o gyd-destunau amrywiol a phenodol, gan gymryd cyfrifoldeb am natur ac ansawdd allbynnau.[1] |
| Lefel 5 | Mae llwyddo ar Lefel 5 yn adlewyrchu'r gallu i gynhyrchu syniadau trwy ddadansoddi cysyniadau ar lefel haniaethol, gan fod â gafael ar sgiliau arbenigol a ffurfio ymatebion i broblemau diffiniedig a haniaethol; dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth; ymarfer cryn ddoethineb ar draws ystod eang o swyddogaethau; a derbyn cyfrifoldeb am bennu a chyflawni canlyniadau personol ac/neu ganlyniadau grŵp.[1] |
| Lefel 6 | Mae llwyddo ar Lefel 6 yn adlewyrchu'r gallu i adolygu'n feirniadol, cydgrynhoi ac ymestyn corff systematig a chydlynol o wybodaeth, gan ddefnyddio sgiliau arbenigol ar draws maes astudio; gwerthuso'n feirniadol gysyniadau a thystiolaeth o amrywiaeth o |

| | |
|---|---|
| | ffynonellau; trosglwyddo a chymhwyso sgiliau diagnostig a chreadigol ac ymarfer cryn ddoethineb mewn ystod o sefyllfaoedd; a derbyn atebolrwydd am bennu a chyflawni canlyniadau personol ac/neu ganlyniadau grŵp.[1] |
| Lefel 7 | Mae llwyddo ar Lefel 7 yn adlewyrchu'r gallu i ddangos meistrolaeth dros faes cymhleth ac arbenigol o gwybodaeth a sgiliau, gan ddefnyddio sgiliau uwch i wneud ymchwil, neu weithgarwch technegol neu broffesiynol uwch, gan gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau cysylltiedig, gan gynnwys y defnydd o oruchwyliaeth.[1] |
| Lefel Credyd | Safon trothwy o gyrhaeddiad o fewn hierarchaeth lefelau. Mae Lefelau Credyd a Chymwysterau fel y'u diffinnir gan y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (2024) (FHEQ) a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.[1]<br>Gweler Lefel Sylfaen, Lefel 4, Lefel 5, Lefel 6 a Lefel 7. |
| Lefel Sylfaen | Mae cyrhaeddiad ar Lefel Sylfaen (Lefel 3) yn adlewyrchu'r gallu i nodi a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er bod wedi'u diffinio'n dda, â rhywfaint o gymhlethdod yn perthynas iddynt. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb am ddechrau a chwblhau tasgau a gweithdrefnau yn ogystal ag arfer ymreolaeth a barn o fewn paramedrau cyfyngedig. Mae hefyd yn adlewyrchu ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn maes astudio neu faes gwaith.[1] |
| Manyleb y Rhaglen | Disgrifiad a ddilyswyd o Raglen ac a gyflwynwyd mewn fformat diffiniedig. |
| Meini Prawf Cyrhaeddiad<br>(Meini Prawf Asesu) | Disgrifiadau o'r hyn y disgwylir i fyfyriwr ei gyflawni er mwyn dangos ei fod wedi cyflawni Deilliant Dysgu. |
| Modiwl | Bloc dysgu cydlynol ac annibynnol sy'n rhan o Raglen. |
| Modiwl Craidd | Modiwl y mae'n rhaid i bob myfyriwr ar Raglen ei ddilyn a llwyddo ynddo (mae hyn yn cynnwys Modiwlau Cofrestriad Proffesiynol). |
| Modiwl Detholiadol | Modiwl nad yw'n cyfrannu tuag at gyfrifo'r marc canrannol cyffredinol a gellir ei gymryd naill ai i gael credydau neu oherwydd diddordeb ('dull archwilio'). Mewn modiwlau detholiadol a wneir i gael credydau bydd myfyrwyr yn cwblhau asesiadau a bydd y credyd a'r marc yn ymddangos ar drawsgrifiad y myfyriwr, ond ni fyddant yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo dosbarth y radd.  Mewn modiwlau detholiadol a wneir yn y 'dull archwilio', ni fydd myfyrwyr yn cwblhau asesiadau; bydd y modiwl yn ymddangos ar drawsgrifiad y myfyriwr ond heb nodi gwerth credyd na marciau. |
| Modiwl Dewisol | Modiwl a enwir ym Manyleb y Rhaglen ac a ddewisir o blith rhestr o fodiwlau. |
| Modiwl Gorfodol | Modiwl y mae'n rhaid i bob myfyriwr ar Raglen ei ddilyn. |

| | |
|---|---|
| Project Ymchwil | Mewn rhaglenni Meistr, mae'r term "project ymchwil" yn disgrifio elfen o’r cwrs sy'n canolbwyntio ar ymchwil. |
| Rhaglen | Rhaglen astudio a ddilysir gan y Brifysgol ac sydd â modiwlau Craidd, Gorfodol a Dewisol fel y'u diffinnir ym Manyleb y Rhaglen. |
| Terfynau Amser | Y cyfnod hwyaf y mae'n rhaid i fyfyriwr fod wedi cwblhau gofynion rhaglen astudio yn ei ystod, gan gynnwys unrhyw ofynion i wneud yn iawn am fethiant. |
| Traethawd Hir | Gweler Project Ymchwil. |
| Ymrestru | Y broses i fyfyriwr ymrestru'n ffurfiol ar gyfer cymhwyster penodol yn y Brifysgol. |
| Ysgol | Adran o'r Brifysgol sy'n gyfrifol am gyflwyno rhaglen. |

1 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. 2019. Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru 2019

## Atodiad 1. Cyflwyno Project Ymchwil Gradd Meistr

Rhaid cyflwyno Projectau Ymchwil Gradd Meistr yn electronig. Dylai'r prif destun fod â bwlch o 1½ rhwng y llinellau neu fwlch gwahanol a bennir yng Nghanllawiau Projectau'r Ysgol, ond gellir defnyddio bwlch sengl yn y crynodeb ac mewn unrhyw ddyfyniadau a throednodiadau sydd wedi'u mewnoli.

Rhaid i bob project ymchwil gynnwys y canlynol:

- Datganiad yn manylu ar yr Adolygiad Moeseg a gynhaliwyd a'r gymeradwyaeth gysylltiedig.
- Datganiad ei fod yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion y radd.
- Datganiad yn nodi ei fod yn ganlyniad gwaith neu ymchwiliad annibynnol, gan nodi unrhyw rannau lle mae'r myfyriwr yn ddyledus i ffynonellau eraill.
- Cadarnhad na chafodd ei gyflwyno am gymhwyster arall (oni bai am gymwysterau deuol y cytunwyd iddynt).
- Datganiad yn cadarnhau bod gwaharddiad ar fynediad (embargo) wedi'i gymeradwyo.
- Dangosir y Cytundeb Project Ymchwil yn nhudalennau nesaf yr atodiad hwn.

Caiff myfyrwyr gyhoeddi gwaith o broject ymchwil cyn neu ar ôl ei gyflwyno i'w arholi. Ni chaiff y gwaith cyhoeddedig gyfeirio at y ffaith bod y gwaith (neu y bydd y gwaith) yn cael ei arholi fel rhan o radd uwch. Mewn rhai achosion, gall rheoliadau'r Brifysgol ar hawliau eiddo deallusol gyfyngu ar yr hyn y gellir ei gyhoeddi.

Dylai Project Ymchwil fod ar gael yn agored. Gall y Brifysgol ganiatáu cyfyngiad ar fynediad am gyfnod penodol o hyd at bum mlynedd. Rhaid i'r goruchwyliwr wneud cais i Gyfarwyddwr yr Ysgol Ddoethurol am fynediad cyfyngedig. Os cyfyngir ar fynediad i'r project ymchwil, fel rheol bydd y teitl a'r crynodeb ar gael i bawb.

**Cytundeb Project Ymchwil**

Mae'n rhaid ateb pob cwestiwn.

1. **Enw'r Awdur:**

2. **Cyfeiriad e-bost yr awdur ym Mhrifysgol Bangor:**

3. **Cyfeiriad e-bost personol yr awdur** (nid Prifysgol Bangor) (Defnyddir y cyfeiriad hwn i gysylltu â chi ar ôl i chi adael y Brifysgol os bydd rhywun yn holi am argaeledd eich traethawd ymchwil):

4. **Rhif Myfyriwr yr Awdur:**

5. **Teitl y Traethawd Ymchwil:**

6. **Prif Oruchwyliwr:**

7. **Ysgol:**

8. **Cyllidwr (gadewch yn wag os nad oes cyllidwr):**

9. **Geiriau allweddol sy'n disgrifio testun eich Project Ymchwil:**

10. **Embargo:** Nodwch a oes gennych embargo (i rwystro mynediad) ar eich traethawd ymchwil. Er mwyn i'r embargo sefyll, rhaid i chi gyflwyno cais i rwystro mynediad drwy'r Ganolfan Geisiadau. Unwaith y bydd embargo'n weithredol, bydd y metadata sy'n disgrifio'r traethawd ymchwil ar gael ond ni ellir cyrchu'r traethawd ymchwil hyd nes diwedd yr embargo. *Dewiswch un o'r tri opsiwn canlynol:*

    ☐ Dim embargo
    ☐ Gwnaed cais am embargo.
    ☐ Mae embargo eisoes wedi'i ganiatáu

11. **Cynnwys deunydd dan hawlfraint.** Dylech wybod pryd mae'n rhaid cael caniatâd i gynnwys deunydd dan hawlfraint trydydd parti yn eich traethawd ymchwil digidol; mae hyn yn cynnwys copïau o unrhyw gyhoeddiadau rydych wedi eu cyhoeddi. Ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.bangor.ac.uk/library/copyright/thirdparty.php.cy. I gael cymorth, cysylltwch â hawlfraint@bangor.ac.uk. *Dewiswch un o'r ddau opsiwn canlynol:*

☐ Rwyf wedi gwirio materion yn ymwneud â hawlfraint trydydd parti trwy gydol fy nhraethawd ymchwil, gan gynnwys pob atodiad, ac rwy'n bwriadu cyflwyno un fersiwn ddigidol o'm traethawd ymchwil

☐ Rwyf wedi gwneud cais am embargo parhaol ar fy nhraethawd ymchwil gan fod gormod o ddeunydd dan hawlfraint trydydd parti yn y traethawd ymchwil i fedru cael gwared arno, ac am na chafwyd caniatâd gan ddeiliad/deiliaid yr hawlfraint.

12. **Datganiad yr awdur**: trwy roi tic yn y blwch hwn rwy'n cydsynio â phob un o'r gosodiadau canlynol. ☐

1. Rwy'n cytuno mai fi yw'r awdur (neu fy mod wedi cael awdurdod yr awdur) i ddod i'r cytundeb hwn ac fy mod felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor sicrhau bod y traethawd ymchwil ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Rwy'n cytuno nad yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd oni bai ei fod, fel y cytunwyd gan y Brifysgol, am gymwysterau deuol cymeradwy.
3. Rwy'n cytuno mai canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod trwy gyfeiriadau llyfryddol.
4. Rwy'n cytuno fy mod wedi ymarfer gofal rhesymol i sicrhau bod y traethawd ymchwil yn wreiddiol ac nad ydyw, hyd y gwn, yn torri unrhyw ddeddfau - yn cynnwys y rhai'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
5. Rwy'n cytuno nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran yr Awdur, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn cael ei dorri, yn y deunydd sy'n cael ei adneuo.
6. Rwy'n cytuno y byddaf yn indemnio Prifysgol Bangor, a pharhau i'w indemnio, rhag unrhyw golled, rhwymedigaeth, hawliad neu ddifrod, yn cynnwys heb gyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemniad llawn), sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos o dorri unrhyw rai o delerau'r cytundeb hwn gennyf.
7. Rwy'n cytuno y gall Prifysgol Bangor, ar ffurf electronig, gadw neu gopïo neu drosi'r traethawd ymchwil i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a'i ddefnyddio yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu nac arddangos y traethawd ymchwil yn yr un fformatau neu gydraniadau ag y cafodd ei adneuo'n wreiddiol.

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

## Atodiad 2: Gweithdrefnau Cymeradwyo Cydnabod Dysgu Blaenorol

1. Defnyddir y term Cydnabod Dysgu Blaenorol fel term cyffredinol sy'n cynnwys cydnabod dysgu blaenorol, cydnabod dysgu ardystiedig blaenorol, cydnabod dysgu blaenorol trwy brofiad, cydnabod dysgu ardystiedig blaenorol ac/neu ddysgu blaenorol trwy brofiadol a chydnabod dysgu a chyflawniad blaenorol. Nid yw Cydnabod Dysgu Blaenorol yn cynnwys canlyniadau astudiaethau blaenorol (Trosglwyddo Credydau)
2. Unwaith bydd Ysgol wedi cymeradwyo cais i Gydnabod Dysgu Blaenorol, rhaid anfon manylion at y Swyddfa Derbyniadau.
3. Argymhellir bod ysgolion yn penodi Cydlynydd (Cydlynwyr) Cydnabod Dysgu Blaenorol.
4. Disgwylir i ysgolion ddiffinio'r math o dystiolaeth sy'n ofynnol i gymeradwyo Cydnabod Dysgu Blaenorol. Gall y dystiolaeth gynnwys:
    - Trawsgrifiad yn manylu ar asesiadau a gwblhawyd yn y Brifysgol neu yn rhywle arall.
    - Arholiad neu brawf.
    - Portffolio o dystiolaeth.
    - Curriculum Vitae gyda thystiolaeth ategol.
    - Arddangosiad neu berfformiad.
5. Rhaid i Ysgolion hysbysu ymgeiswyr o'r canlynol:
    - Y dystiolaeth sy'n ofynnol gan yr ymgeisydd.
    - Y terfynau amser ar gyfer ceisiadau a phenderfyniadau.
    - Y gefnogaeth, os oes, sydd ar gael i'r ymgeisydd wrth baratoi'r cais.
6. Os gwrthodir cais, gall yr ymgeisydd gwyno wrth Bennaeth yr Ysgol o dan gam anffurfiol y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.
7. Dylid adolygu’n rheolaidd weithdrefnau Ysgolion i ystyried a chymeradwyo Cydnabod Dysgu Blaenorol.
8. Dylai ysgolion ofyn i fyfyrwyr a ddefnyddiodd y drefn Cydnabod Dysgu Blaenorol i roi sylwadau ar eu profiad.
9. Dylid gwahodd Arholwyr Allanol i roi sylwadau ar geisiadau Cydnabod Dysgu Blaenorol a gweithdrefnau ysgolion.
10. Ar gyfer Archwiliadau Ansawdd Mewnol, rhaid i Ysgolion gadw tystiolaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr.

## Atodiad 3: Meini Prawf Marcio

Bwriad y meini prawf marcio yw bod yn 'waelodlin' safonau.  Os bydd ysgolion yn datblygu eu meini prawf marcio eu hunain, nid ddylent osod disgwyliadau uwch na'r rhai a nodir yn y tabl isod. **Ni ddylai** ysgolion newid y colofnau sy'n cynnwys y Marc Categorïaidd, dosbarth cysylltiedig y Radd na'r Trosolwg Cyffredinol.

Mae'r tabl yn darparu meini prawf cyffredinol. Rhaid defnyddio'r meini prawf mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r cysylltiadau rhwng asesiadau, deilliannau dysgu modiwl, deilliannau dysgu rhaglen a datganiadau meincnod pwnc.  Hefyd mae'n rhaid defnyddio'r meini prawf yn ofalus mewn perthynas â'r lefel astudio. Er enghraifft, mae'n rhaid pwyso a mesur gwybodaeth a dealltwriaeth ar y lefel briodol. Efallai bod myfyriwr ar Lefel Sylfaen neu Lefel 4 (blwyddyn 1) yn dangos tystiolaeth o wybodaeth sy'n rhagorol, ond efallai na fyddai'r un wybodaeth yn cael ei hystyried yn rhagorol yn achos myfyriwr ar Lefel 5 (blwyddyn 2). Dylid rhoi sylw arbennig i'r meini prawf sydd mewn print trwm yn y tabl. Dylid eu pwyso a'u mesur yn ofalus mewn perthynas â lefel astudio'r myfyriwr. Er enghraifft, gall myfyriwr ar Lefel 4 ddangos gwreiddioldeb trwy ddefnyddio syniadau sydd fel rheol yn cael eu cyflwyno a'u hystyried ar Lefel uwch.  Ar y llaw arall, i ddangos gwreiddioldeb ar Lefel 7, byddai'n rhaid i fyfyriwr gyflwyno syniadau oedd i raddau helaeth yn wreiddiol neu syniadau oedd yn seiliedig ar gyhoeddiadau diweddar nad oeddent yn rhan o elfen hyfforddedig modiwl.

O dan reoliadau Graddau Israddedig Estynedig rhaid i fyfyrwyr gael marc cyfartalog cyffredinol o 50% ac felly, mae'r marciau categorïaidd E, D-, D a D+ yn farciau 'methu' ar lefel gradd.

| Marc Categorïaidd | Marc % Cyfatebol | Dosbarth Gradd Israddedig | Dosbarth Gradd Meistr | Trosolwg cyffredinol o fewn Dosbarth y Radd | Meini Prawf Marcio Sylfaenol | Meini Prawf Marcio Eilaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A** | 100% | Dosbarth Cyntaf | Rhagoriaeth | Di-fai | • Gwybodaeth gynhwysfawr<br>• **Dealltwriaeth fanwl o'r maes pwnc**<br>• **Astudiaeth gefndirol eang**<br>• Ateb hynod bwrpasol, ac wedi ei strwythuro'n dda<br>• Dadleuon wedi eu cyflwyno a'u hamddiffyn yn rhesymegol<br>• Dim gwallau ffeithiol/cyfrifiannol<br>• **Dehongliad gwreiddiol**<br>• **Datblygu cysylltiadau newydd rhwng pynciau** | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer y rhan fwyaf o'r meini prawf sylfaenol<br>• **Wedi meistroli'r pwnc a meysydd perthnasol eraill yn llwyr**<br>• **Syniadau/dadleuon yn wreiddiol iawn** |
| A* | 95% | | | Eithriadol | | |
| A+ | 87% | | | Rhagorol | | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer rhai meini prawf sylfaenol<br>• **Wedi meistroli'r pwnc yn llwyr**<br>• **Syniadau/dadleuon yn wreiddiol iawn** |
| A | 80% | | | Da | • **Dull newydd o ymdrin â phroblem**<br>• Cyflwyniad rhagorol gyda chyfathrebu cywir iawn | • Yn cyflawni'r holl feini prawf sylfaenol<br>• Wedi meistroli'r pwnc ond gyda mân fylchau mewn gwybodaeth<br>• **Syniadau/dadleuon yn wreiddiol ar y cyfan** |
| A- | 74% | | | Yn cyflawni gofynion y dosbarth | | • Yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r meini prawf sylfaenol, ond nid y cyfan<br>• Wedi meistroli'r pwnc ond gyda rhai bylchau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | mewn gwybodaeth<br>• **Syniadau/dadleuon yn wreiddiol ar y cyfan** |
| B+ | 68% | Ail Ddosbarth Uwch | Teilyngdod | Da o fewn y dosbarth | • Gwybodaeth gref<br>• Deall y rhan fwyaf ond nid y cyfan o'r maes pwnc<br>• **Tystiolaeth o astudio cefndirol**<br>• Ateb pwrpasol gyda strwythur da<br>• Cyflwyno dadleuon mewn modd cydlynol<br>• Fawr ddim gwallau ffeithiol/cyfrifiannol | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer rhai meini prawf sylfaenol<br>• Wedi meistroli’r pwnc ond gyda bylchau mewn gwybodaeth<br>• **Mae rhai syniadau / dadleuon yn wreiddiol** |
| B | 65% | | | Canolig | | • Yn cyflawni’r holl feini prawf sylfaenol<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ffeithiol gref<br>• Cyflwynir syniadau/dadleuon yn dda ond ychydig ohonynt sy’n wreiddiol |
| B- | 62% | | | Yn cyflawni gofynion y dosbarth | • Rhywfaint o ddehongliad gwreiddiol cyfyngedig<br>• Disgrifir cysylltiadau hysbys rhwng pynciau<br>• Defnyddir dulliau sydd eisoes yn bodoli i fynd i’r afael â phroblemau<br>• Cyflwyniad da gyda chyfathrebu cywir | • Yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r meini prawf sylfaenol, ond nid y cyfan<br>• Gwybodaeth ffeithiol gref gyda mân wendidau mewn dealltwriaeth<br>• Cyflwynir y rhan fwyaf o’r syniadau/dadleuon yn dda ond nid pob un, ac ychydig sy’n wreiddiol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C+ | 58% | Ail Ddosbarth Is | Llwyddo | Da o fewn y dosbarth | • Gwybodaeth am y prif feysydd/egwyddorion<br>• Deall prif elfennau'r maes pwnc<br>• **Tystiolaeth gyfyngedig o astudio cefndirol**<br>• Canolbwyntio ar y cwestiwn, gyda peth deunydd amherthnasol a gwendidau yn y strwythur.<br>• Cyflwynir dadleuon ond nid ydynt yn gydlynol | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer rhai meini prawf sylfaenol<br>• Gwybodaeth ffeithiol gref gyda rhai gwendidau mewn dealltwriaeth<br>• Syniadau/dadleuon yn gyfyngedig ond wedi eu cyflwyno'n dda |
| C | 55% | | | Canolig | | • Yn cyd-fynd â'r holl feini prawf sylfaenol<br>• **Gwybodaeth ffeithiol gymedrol gyda rhai gwendidau mewn dealltwriaeth**<br>• Syniadau/dadleuon cyfyngedig gyda gwendidau mewn rhesymeg/cyflwyniad |
| C- | 52% | | | Yn cyflawni gofynion y dosbarth | • Nifer o wallau ffeithiol/cyfrifiannol<br>• **Dim dehongli gwreiddiol**<br>• **Dim ond y prif gysylltiadau rhwng pynciau a ddisgrifir**<br>• Ychydig iawn o ddatrys problemau<br>• Rhai gwendidau mewn cyflwyno a chywirdeb | • Yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o'r meini prawf, ond nid y cyfan<br>• Gwybodaeth ffeithiol gymedrol gyda nifer o wendidau mewn dealltwriaeth<br>• Syniadau/dadleuon cyfyngedig gyda gwendidau mewn rhesymeg/cyflwyniad |
| D+ | 48% | Trydydd Dosbarth | Methu Cyfadferadwy | Da o fewn y dosbarth | • Gwybodaeth am y prif feysydd/egwyddorion yn unig | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer rhai meini prawf sylfaenol<br>• **Gwybodaeth ffeithiol gymedrol gyda nifer o** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Gwendidau mewn dealltwriaeth o'r maes pwnc<br>• **Tystiolaeth gyfyngedig o astudio cefndirol** | **wendidau mewn dealltwriaeth**<br>• Cyflwynir ychydig o syniadau/dadleuon ond gyda gwendidau |
| D | 45% | | | Canolig | • Nid yw’r ateb yn canolbwyntio’n ddigonol ar y cwestiwn ac mae peth deunydd amherthnasol a strwythur gwael<br>• Cyflwynir dadleuon ond nid ydynt yn gydlynol | • Yn cyd-fynd â'r holl feini prawf sylfaenol<br>• Gwybodaeth ffeithiol gyfyngedig gyda nifer o wendidau mewn dealltwriaeth<br>• Ychydig iawn o syniadau/dadleuon a gyflwynir |
| D- | 42% | | | Yn cyflawni gofynion y dosbarth | • Nifer o wallau ffeithiol/cyfrifiannol<br>• **Dim dehongli gwreiddiol**<br>• **Dim ond y prif gysylltiadau rhwng pynciau a ddisgrifir**<br>• Ychydig iawn o ddatrys problemau<br>• Llawer o wendidau mewn cyflwyno a chywirdeb<br>• Ar gyfer cyrsiau ôl-radd hyfforddedig - annigonol i gyflawni'r deilliannau dysgu cysylltiedig. | • Yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o'r meini prawf, ond nid y cyfan<br>• Gwybodaeth ffeithiol gyfyngedig gyda llawer o wendidau mewn dealltwriaeth<br>• Ychydig yn unig o syniadau/dadleuon a gyflwynir, a cheir gwallau o ran rhesymeg a chyflwyniad |
| E+ | 38% | Methu Cyfadferadwy | Methu | Da o fewn y dosbarth | • Annigonol i gyflawni'r deilliannau dysgu cysylltiedig<br>• **Diffygion mewn gwybodaeth hyd yn oed** | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer y rhan fwyaf o’r meini prawf sylfaenol<br>• Gwybodaeth ffeithiol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **am y meysydd/egwyddorion allweddol**<br>• Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth, hyd yn oed yn y prif feysydd<br>• **Tystiolaeth gyfyngedig iawn o astudio cefndirol**<br>• Yr ateb yn dibynnu ar ddeunydd ymylol ac nid oes strwythur cydlynol<br>• Ni chyflwynir unrhyw ddadleuon<br>• Llawer o wallau ffeithiol/cyfrifiannol<br>• Dim dehongli gwreiddiol<br>• Ni ddisgrifir cysylltiadau rhwng pynciau<br>• Dim ymgais i ddatrys problemau<br>• Mae'r cyflwyniad yn wan ac yn cynnwys llawer o wallau | gyfyngedig iawn gyda llawer o wendidau mewn dealltwriaeth<br>• Ymgais wan i ateb/mynd i'r afael â'r cwestiwn |
| E | 35% | | | Canolig | | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer rhai meini prawf sylfaenol<br>• Bylchau mawr mewn gwybodaeth/dealltwri aeth<br>• Ymgais wan i ateb/mynd i'r afael â'r cwestiwn |
| E- | 32% | | | Yn cyflawni gofynion y dosbarth | | • Yn cyd-fynd â'r holl feini prawf sylfaenol<br>• Tystiolaeth gyfyngedig iawn o wybodaeth/dealltwria eth<br>• Syniadau/dadleuon yn amherthnasol i'r cwestiwn ar y cyfan |
| F1 | 25% | Methu | | Yn cyflawni gofynion y dosbarth | • Annigonol i gyflawni'r deilliannau dysgu cysylltiedig<br>• **Dim tystiolaeth o wybodaeth na dealltwriaeth perthnasol**<br>• **Dim tystiolaeth o astudio cefndirol**<br>• Yr ateb yn dibynnu ar ddeunydd amherthnasol ac | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer y rhan fwyaf o'r meini prawf sylfaenol<br>• Dim tystiolaeth o wybodaeth/dealltwria eth<br>• Tystiolaeth gyfyngedig yn unig o ymgais i ateb y |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | nid oes strwythur cydlynol<br>• Ni chyflwynir unrhyw ddadleuon neu nid yw'r dadleuon yn berthnasol i'r asesiad.<br>• Llawer o wallau ffeithiol/cyfrifiannol<br>• Dim ymgais i ddehongli<br>• Ni ddisgrifir cysylltiadau rhwng pynciau<br>• Dim ymgais i ddatrys problemau na mynd i'r afael â chyfarwyddyd yr asesiad<br>• Mae'r cyflwyniad yn wan iawn ac yn cynnwys llawer o wallau | cwestiwn. |
| F2 | 15% | | | Yn cyflawni gofynion y dosbarth | | • Yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer rhai meini prawf sylfaenol<br>• Dim tystiolaeth o wybodaeth/dealltwria eth<br>• Tystiolaeth gyfyngedig iawn yn unig o ymgais i ateb y cwestiwn. |
| F3 | 5% | | | Yn cyflawni gofynion y dosbarth | | • Yn cyd-fynd â'r holl feini prawf sylfaenol<br>• Dim tystiolaeth o wybodaeth/dealltwriaeth a/neu dystiolaeth o gamddeall<br>• Dim ymgais i ateb/mynd i'r afael â'r cwestiwn |
| F4 | 0% | | | Nid yw'n cyflawni'r gofynion | | • Yn cyflawni ychydig iawn o'r meini prawf sylfaenol<br>• Dim tystiolaeth i ddangos hyd yn oed y wybodaeth neu'r ddealltwriaeth fwyaf arwynebol<br>• Dim ymgais i ateb/mynd i'r afael â'r cwestiwn |

## Atodiad 4: Meini Prawf Llwyddo mewn Modiwlau

Mae'r meini prawf llwyddo mewn modiwlau'n rhoi canllawiau i fyfyrwyr ynghylch yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn cwrdd â gofynion graddau penodol a chyflawni'r deilliannau dysgu. Gellir cynnwys y meini prawf hyn mewn llawlyfrau myfyrwyr ac/neu arweinlyfrau modiwl. Bwriedir y meini prawf llwyddo mewn modiwlau fel safonau sylfaenol cyffredinol. **Caiff ysgolion eu hannog** i addasu'r meini prawf er mwyn eu cysylltu mor agos â phosib ag asesiadau neilltuol. Er enghraifft, ar gyfer asesiad a seilir ar ymweliad maes, gall y safonau cyffredinol hyn fod yn llai o gymorth i fyfyrwyr na meini prawf a baratowyd yn unswydd ar gyfer yr asesiad. Hefyd mae'n rhaid defnyddio'r meini prawf yn ofalus mewn perthynas â'r lefel astudio. Er enghraifft, mae'n rhaid pwyso a mesur gwybodaeth a dealltwriaeth ar y lefel briodol. Efallai bod gofyn i fyfyriwr ar Lefel 4 (blwyddyn un) ddangos tystiolaeth o wybodaeth sy'n rhagorol, ond efallai na fydd yr un wybodaeth yn cael ei hystyried yn rhagorol yn achos myfyriwr ar Lefel 5 (blwyddyn dau). Yn yr un modd, gall myfyriwr ar Lefel 4 ddangos gwreiddioldeb trwy ddefnyddio syniadau sydd fel rheol yn cael eu cyflwyno a'u hystyried ar lefel uwch. Ar y llaw arall, i ddangos gwreiddioldeb ar Lefel 7, byddai'n rhaid i fyfyriwr gyflwyno syniadau oedd i raddau helaeth yn wreiddiol neu syniadau oedd yn seiliedig ar gyhoeddiadau diweddar nad oeddent yn rhan o elfen hyfforddedig modiwl.

Er mwyn cael gradd A, rhaid i'r asesiad gyrraedd y safonau a ganlyn:

- Gwybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth fanwl o'r maes pwnc.
- Dangos astudio cefndirol eang.
- Ateb hynod bwrpasol, ac wedi ei strwythuro'n dda
- Dadleuon a gyflwynir ac a gefnogir yn rhesymegol.
- Dim gwallau ffeithiol/cyfrifiannol.
- Elfennau arwyddocaol o ddehongli gwreiddiol.
- Dangos gallu i adnabod, datblygu a chyflwyno cysylltiadau newydd rhwng testunau.
- Cynnwys dulliau newydd o ddadansoddi ac/neu egluro problem.
- Cyflwyniad rhagorol gyda chyfathrebu cywir iawn.

Er mwyn cael gradd B, rhaid i'r asesiad gyrraedd y safonau a ganlyn:

- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gref o'r rhan fwyaf o'r maes pwnc.
- Dangos tystiolaeth o astudiaeth gefndirol.
- Ateb pwrpasol, ac wedi ei strwythuro'n dda
- Dadleuon a gyflwynir yn gydlynol.
- Fawr ddim gwallau ffeithiol/cyfrifiannol
- Rhai elfennau o ddehongli gwreiddiol.
- Disgrifio cysylltiadau hysbys rhwng pynciau.
- Dadansoddi ac/neu egluro problemau trwy ddefnyddio dulliau sydd ar gael yn barod.
- Cyflwyniad rhagorol gyda chyfathrebu cywir iawn.

Er mwyn cael gradd C, rhaid i'r asesiad gyrraedd y safonau a ganlyn:

- Dangos gwybodaeth am feysydd/egwyddorion allweddol
- Cynnwys rhywfaint o dystiolaeth o astudio cefndirol, hyd yn oed os yw'n gyfyngedig.
- Canolbwyntio ar y cwestiwn (cyfarwyddyd yr asesiad), gyda dim ond peth deunydd amherthnasol a gwendidau yn y strwythur.
- Ymgais i gyflwyno dadleuon perthnasol a rhesymegol.
- Peidio â chynnwys nifer fawr o wallau ffeithiol/cyfrifiannol.

- Disgrifio'r prif gysylltiadau rhwng testunau.
- Ceisio dadansoddi ac/neu egluro problemau.
- Heb wendidau mawr o ran cyflwyniad a chywirdeb.

Er mwyn cael gradd D, rhaid i’r asesiad gyrraedd y safonau a ganlyn:

- Dangos gwybodaeth am rai meysydd/egwyddorion allweddol.
- Cynnwys rhywfaint o dystiolaeth o astudio cefndirol, hyd yn oed os yw'n gyfyngedig.
- Ceisio cyflwyno ateb i'r cwestiwn (cyfarwyddyd yr asesiad) gyda dim ond peth deunydd amherthnasol a gwendidau yn y strwythur yn unig.
- Ceisio cyflwyno dadleuon perthnasol a rhesymegol.
- Peidio â chynnwys nifer fawr o wallau ffeithiol/cyfrifiannol.
- Disgrifio rhai cysylltiadau rhwng pynciau.
- Cynnig peth dadansoddiad a/neu eglurhad o broblemau.
- Dangos ymgais i osgoi gwendidau mawr yn y cyflwyno ac o ran cywirdeb.

Caiff yr asesiad radd E-F os nad yw’n cyflawni’r deilliannau dysgu cysylltiedig, ac os yw’n cynnwys:

- Manylion annigonol.
- Diffygion mewn gwybodaeth hyd yn oed am y meysydd/egwyddorion allweddol.
- Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth, hyd yn oed o'r prif feysydd.
- Dim tystiolaeth o astudio cefndirol.
- Deunydd cysylltiedig, heb strwythur cydlynol.
- Dim dadleuon.
- Llawer o wallau ffeithiol/cyfrifiannol.
- Dim dehongli gwreiddiol.
- Ni ddisgrifir cysylltiadau rhwng pynciau
- Dim ymgais i ddatrys problemau.
- Cyflwyniad gwan gyda llawer o wallau.

## Atodiad 5: Trosglwyddiadau Llawn Amser / Rhan Amser

Pan fydd myfyriwr yn trosglwyddo o gwrs llawn amser i gwrs rhan amser, neu fel arall, cyfrifir y cyfnodau astudio fel y dangosir isod.

x = hyd y rhaglen lawn amser (misoedd)
y = hyd y rhaglen ran amser (misoedd)

**O Ran Amser i Lawn Amser**
Caiff y cyfnod astudio **a gwblhawyd eisoes** ei gyfrifo fel a ganlyn:

Cyfnod llawn amser cyfatebol (misoedd) = Astudiaethau rhan amser a gwblhawyd (misoedd)* (x/y)

**O Lawn Amser i Ran Amser**
Caiff y cyfnod astudio **a gwblhawyd eisoes** ei gyfrifo fel a ganlyn:

Cyfnod rhan amser cyfatebol (misoedd) = Astudiaethau llawn amser a gwblhawyd (misoedd) * (y/x)

## Atodiad 6: Cyfrifiadau sy'n Cynnwys Marciau Categorïaidd

Yn yr adran hon, ystyr 'elfennau asesu' yw arholiadau a darnau o waith cwrs. Ystyr 'is-elfennau asesu' yw elfennau megis cwestiynau mewn papur arholiad neu adrannau ar wahân o ddarn o waith cwrs.

Rhaid cyfrifo marciau modiwl gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn:

- Rhaid trosi'r marciau categorïaidd i farc canrannol gan ddefnyddio'r gwerthoedd a roddir yn Adran 7:1.
- Rhaid profi unrhyw feddalwedd a ddefnyddir i drosi marciau categorïaidd yn farciau canrannol i wneud yn siŵr bod y trosi a'r cyfrifiadau'n gywir.
- Rhaid trosi marc pob elfen ac is-elfen asesu o farc categorïaidd i farc canrannol cyn cyfrifo marc y modiwl. Rhaid i'r cyfrifiad ddefnyddio holl farciau'r is-elfennau a'r elfennau, pob un wedi ei bwysoli'n briodol.  Mae hyn yn osgoi'r anghysonderau bach a allai godi os cyfrifir marc y modiwl trwy gyfrwng cyfrifiad cyfresol (e.e. cyfrifir marc arholiad cyfartalog a defnyddir y cyfartaledd hwnnw wedyn i gyfrifo marc cyffredinol y modiwl).
- Dylai arholwyr ystyried yn ofalus a ydyw manteision is-rannu cwestiwn arholiad neu elfen gwaith cwrs yn is-is-elfennau yn ddigonol i gyfiawnhau cymhlethdod ychwanegol cyfrifo marc modiwl.
- Nid argymhellir ôl-drosi marciau canran i farciau categorïaidd oherwydd mae'n gam ychwanegol a gallai camgymeriadau ddigwydd. Gallai ôl-drosi roi mantais neu anfantais annheg i fyfyrwyr os yw'r marc canrannol a gyfrifir o'r marc categorïaidd a ôl-droswyd yn uwch neu'n is na'r marc a enillasid pe bai marc cyfartalog wedi ei gyfrifo o'r marciau a droswyd ar gyfer pob adran.
- Caniateir ôl-drosi marciau canran i farciau categorïaidd mewn sefyllfaoedd lle mae methodoleg ddiffiniedig, sy'n addas i'r ffurf asesu, y gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu marc categorïaidd cyfartalog o sgoriau rhifiadol (e.e. gellir safoni a throsi canlyniadau arholiadau/profion aml-ddewis i farc canrannol cyn pennu marc categorïaidd o'r sgoriau rhifiadol).
- Rhaid bod prosesau yn eu lle i gyfrifo marc modiwl cyfartalog ar sail is-set o farciau elfennau. Er enghraifft, os yw myfyriwr wedi cael ei eithrio o gwblhau un elfen oherwydd amgylchiadau arbennig.
- Oni bai bod rhesymau dilys, ni ddylid addasu marc categorïaidd a ddyfarnwyd i elfen neu is-elfen dim ond er mwyn gorfodi cyfrifo marc modiwl uwch.
- Ni chaiff marcwyr ddisodli'r marc canran a gafwyd trwy ddefnyddio'r gwerthoedd a roddir yn Adran 7.1. Er enghraifft, os rhoddir y marc categorïaidd A-, rhaid trosi hwn i 74%.  Ni ddylai marcwyr ddisodli'r marc a roddir i'w godi i farc uwch yn y band A-.  Os yw marciwr yn credu bod 74% yn amhriodol, dylai'r marciwr ystyried a ddylid bod wedi rhoi A yn hytrach nag A-.  Mae'r unig eithriadau yn cynnwys sefyllfaoedd lle gellir rhoi marciau rhifiadol manwl-gywir oherwydd bod y marciau rhifiadol yn gysylltiedig â meini prawf/safonau a bennwyd yn allanol, neu â safonau/profiad proffesiynol.

## Atodiad 7: Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch

Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch gynllun annibynnol i adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwn. Os ydych yn anfodlon ar y canlyniad a gawsoch gan Brifysgol Bangor, efallai y gallwch ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch adolygu eich achos. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau, yma: https://www.oiahe.org.uk/students.

Fel rheol rhaid i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn cwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr atoch o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl i chi gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'n awtomatig. Os caiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau neu hyd yn oed ei chadarnhau'n rhannol cewch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunwch. Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gallech ddisgwyl derbyn llythyr o'r fath, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters.

I ddod â chwyn gerbron Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, rhaid i chi lenwi Ffurflen Gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'i chyflwyno cyn pen 12 mis wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn arferol), ac fel rheol bydd yn rhaid i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.